ClwydAlyn

# Adroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLl)

2024/2025




ClwydAlyn.co.uk

ClwydAlyn

Adroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLl)
2024/2025

# Cynnwys

## Amgylcheddol


5 **Newid Hinsawdd** (Thema 1)

9 **Ecoleg** (Thema 2)

12 **Rheoli Adnoddau** (Thema 3)


## Cymdeithasol


14 **Fforddiadwyedd a Diogelwch** (Thema 4)

17 **Diogelwch ac Ansawdd Adeiladau** (Thema 5)

18 **Llais y Preswyliwr** (Thema 6)

23 **Cymorth i Breswylwyr** (Thema 7)

28 **Creu Lleoedd** (Thema 8)


## Llywodraethu


32 **Strwythur a Llywodraethu** (Thema 9)

34 **Y Bwrdd** (Thema 10)

38 **Lles Staff** (Thema 11)

42 **Cadwyn Gyflenwi** (Thema 12)












# Cyflwyniad

**Mae 2024/25 wedi bod yn flwyddyn bwysig i ClwydAlyn gyda chyfnod ein Cynllun Corfforaethol 2020-2025 yn dirwyn i ben.**

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed nid yn unig i sicrhau ein bod ar y llwybr cywir i gyflawni ein hymrwymiadau a nodwyd yn y cynllun hwn tuag at ein cenhadaeth o drechu tlodi, ond hefyd i ennyn ymlyniad y Bwrdd a chymaint o gydweithwyr a phreswylwyr ag sy'n bosibl wrth ddatblygu ein cynllun pum mlynedd 2025 - 2030 newydd i sicrhau bod ein gwaith a'n hadnoddau yn parhau i gael eu targedu lle mae mwyaf o'u hangen.

Trwy'r gwaith hwn rydym yn falch o fod wedi cael effaith gwirioneddol.

Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf nid ydym wedi troi unrhyw aelwyd allan i fod yn ddigartref trwy ein polisi dim troi allan arloesol, gan ganolbwyntio ein dull a'n hadnoddau, yn hytrach, ar newid y berthynas sydd gennym â'n preswylwyr yn sylfaenol i'w galluogi i gynnal eu tenantiaethau.

Rydym wedi llunio a datblygu partneriaethau gyda mentrau cymdeithasol i daclo tlodi bwyd a thanwydd yn ogystal â Bwydo'n Dda a Chymru Gynnes, gan fuddsoddi i gynyddu'r mynediad at fwyd iach, maethlon i breswylwyr a'n cydweithwyr, a rhoi cefnogaeth i unrhyw un sy'n cael trafferth i dalu eu biliau ynni.

Rydym hefyd wedi buddsoddi £6 miliwn i wella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi, yn ogystal ag adeiladu 877 o gartrefi o ansawdd i ddarparu cartrefi diogel a thenantiaethau sicr i fwy o deuluoedd.

Gan gydnabod bod gan gefnogaeth cyflogadwyedd ran allweddol i'w chwarae wrth alluogi preswylwyr i gyflawni eu dyheadau, rydym wedi trefnu amrywiaeth eang o gefnogaeth i alluogi pobl leol i gael mynediad at gyfleoedd swyddi a rhoi hwb i'w sgiliau, gan gynnwys buddsoddi mewn swyddi ar lwybrau yn ClwydAlyn sy'n cynnig cyfle i gael gwaith ym myd tai i bobl leol.

Rydym yn gwybod na allwn daclo tlodi heb sicrhau bod ein cydweithwyr ni ein hunain yn cael eu cefnogi'n dda, ac rydym yn falch o fod yn gyflogwr cyflog byw, yn ogystal â darparu dewis cinio am ddim i gydweithwyr ac amrywiaeth eang o gefnogaeth llesiant a chyfleoedd dysgu a datblygu.

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant hefyd wedi cymryd camau breision ymlaen, oherwydd ein bod am gefnogi pawb yn ClwydAlyn i allu bod yn nhw eu hunain a theimlo eu bod yn perthyn pan fyddant yn dod i'r gwaith bob dydd.

Ein nod bob amser yw bod yn landlord da yn gyntaf ac yn bennaf, ac rydym wedi dangos cynnydd gwirioneddol o ran y ffordd yr ydym yn gweithio gyda phreswylwyr, eu cynnwys ac yn ymgysylltu â nhw o ran y ffordd y mae ein sefydliad yn gweithio fel ein bod yn cael ein harwain gan y preswylwyr mewn gwirionedd.

Mae'r adroddiad hwn eleni yn amlygu'r cynnydd yr ydym wedi ei wneud ar yr ymrwymiadau hyn i gyd dros y 12 mis diwethaf.

Ond, er gwaethaf y llwyddiannau hyn rydym yn gwybod bod her tlodi ac annhegwch yng Ngogledd Cymru yn parhau i dyfu. Dyna pam y bydd ein cenhadaeth dros y pum mlynedd nesaf yn parhau i ganolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth i ddod â thlodi i ben trwy dair prif flaenoriaeth:

- **Dod â digartrefedd i ben.**
- **Sicrhau bod ein preswylwyr a'n cydweithwyr yn gallu byw mewn cartrefi cynnes.**
- **Darparu mynediad at fwyd da, fforddiadwy ym mhob ardal.**

Trwy weithio gyda'n cydweithwyr, preswylwyr a'n partneriaid rydym yn benderfynol o greu newid gwirioneddol i'r cymunedau ar draws Gogledd Cymru.




# Amgylcheddol



## Lleihau ein heffaith ar y blaned

**Yn ClwydAlyn, rydym yn gweithio i ymwreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol ym mhopeth a wnawn, o'r ffordd yr ydym yn gwneud penderfyniadau a thyfu ein gwaith a'n dylanwad, i'r ffordd yr ydym yn datblygu cartrefi newydd, cynnal a chadw ein cartrefi presennol a rhedeg ein sefydliad.**

Rydym yn gwneud hyn trwy weithio gyda'n cymunedau, preswylwyr a chydweithwyr i leihau ein heffaith ar y blaned ac, yn hanfodol, i gefnogi ein cenhadaeth o ddod â thlodi i ben trwy sicrhau bod ein cartrefi yn fwy effeithlon o ran ynni a fforddiadwy i'w cadw'n gynnes.

Rydym hefyd am leihau unrhyw effaith negyddol a gaiff ein busnes ar newid hinsawdd a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fioamrywiaeth a chynaliadwyedd ecolegol. Byddwn yn gwneud hyn trwy gyflawni gwelliannau i gynyddu ein gwytnwch a lliniaru'r graddau yr ydym yn agored i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n diogelu ein preswylwyr a'n cartrefi, gan ein helpu i ddod yn sefydliad Sero Net erbyn 2050.



Mae ein Strategaeth Amgylcheddol a Chynaliadwyedd (2025 – 2030) yn nodi map i'n harwain tuag at y nod hwn, gydag amcanion tymor hir dan themâu amgylcheddol, targedau tymor byr i'w cyflawni a chamau gweithredu i gydweithwyr i annog gweithredu ar y cyd.

Thema 1:

# Newid hinsawdd

## Gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi trwy fuddsoddiad sy'n torri'r record

Mae'n gwaith i wella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi a'u gwneud yn gynhesach a mwy fforddiadwy i'w cynhesu i breswylwyr wedi cael blwyddyn sydd wedi torri'r record, gyda'n buddsoddiad mwyaf hyd yn hyn – £4.5 miliwn.

Mae ein gweithgareddau ôl-osod yn dilyn methodoleg PAS2035, sy'n canolbwyntio ar osod camau ffabrig ar gartref yn gyntaf cyn gosod deunydd adnewyddadwy a diweddaru'r system wresogi.

Mae gan bob cartref arolwg PAS2035 gyda chamau priodol wedi eu nodi a'u cynllunio ar gyfer yr eiddo unigol.





Tom Boome, Pennaeth Technegol, Arloesedd a Hinsawdd ClwydAlyn yn dangos technoleg newydd arloesol i osod paneli isgoch mewn 28 cartref yn Llanelwy fel rhan o'n rhaglen ôl-osod i Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd Tai a Llywodraeth Leol y Cabinet.

## Yn ystod y flwyddyn:

**435** asesiad ôl-osod wedi eu cwblhau

**387** o gartrefi wedi eu huwchraddio

# Roedd hyn yn cynnwys

## **381** o safleoedd wedi cael paneli solar

Mae gosod paneli ffotofoltaig (PV) solar yn creu ynni adnewyddadwy ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar ffynonellau ynni nad ydynt yn adnewyddadwy.

## **387** o systemau ynni deallus a synwyryddion amgylcheddol

Rydym wedi gosod synwyryddion i ganfod lefelau $CO_2$, lleithder a thymheredd mewn ystafelloedd i fyw ynddynt, yn ogystal â chlampiau ar wifrau trydan. Dangosir y data o'r synwyryddion a'r clampiau yma ar ddashfwrdd sy'n gadael i'r preswylwyr ddefnyddio'r ynni y mae ar eu cartref ei angen yn y ffordd fwyaf effeithiol, gyda chefnogaeth ein cynghorwyr ynni.

## **60** o gartrefi gyda briciau aer mecanyddol Airex

Roedd hyn yn golygu cyfnewid y briciau awyru traddodiadol mewn cartref gyda dewis mecanyddol sy'n agor i adael i'r aer gylchredeg dan loriau isaf ar bren ond yna maent yn cau pan na fydd angen awyru i atal drafftiau ac i aer oer fynd i mewn i'r cartref.

## **30** batri storio wedi eu gosod

Trwy osod batris wedi eu cysylltu â phaneli PV solar, mae'r holl drydan sy'n cael ei greu ond nad yw'n cael ei ddefnyddio yn y cartref yn cael ei storio i'w ddefnyddio pryd bynnag y bydd ei angen. Mae hyn yn lleihau'r galw ar y grid trydan ac yn gwneud y defnydd mwyaf o'r trydan sydd wedi ei gynhyrchu heb unrhyw allyriadau.

## **51** o systemau gwresogi trydanol isgoch NexGen

Mewn cartrefi pan na fydd pympiau gwres ffynhonnell aer yn ymarferol i'w gosod, rydym wedi treialu gosod gwresogi isgoch sy'n cael ei osod ar y nenfwd. Mae'r adborth a'r data wedi bod yn gadarnhaol iawn, gan ddangos gostyngiad yn y defnydd o ynni a'r preswylwyr yn dweud eu bod yn gyfforddus iawn yn eu cartrefi.

## **45** dargyfeirydd solar i ddŵr poeth

Mae'r dyfeisiadau hyn yn dargyfeirio unrhyw drydan sy'n cael ei gynhyrchu gan yr haul nad yw'n cael ei ddefnyddio yn y cartref i'r tanc dŵr poeth. Mae defnyddio'r trydan hwn sydd dros ben yn gwneud y gorau o'r ynni sy'n cael ei gynhyrchu yn y cartref ac yn caniatáu budd ychwanegol ar ôl y defnydd trydan uniongyrchol.

# Rydym hefyd wedi cwblhau:

inswleiddio **228** nenfwd

inswleiddio **32** o waliau allanol

inswleiddio **12** o waliau mewnol

**120** o gartrefi gyda goleuadau ynni isel

inswleiddio ceudod waliau mewn **25** eiddo

inswleiddio **11** to fflat

gosod **7** pwmp ffynhonnell aer

Mae'r gwaith yma yn ein galluogi i leihau allyriadau carbon. Mae diweddariadau i inswleiddiad, cyfnewid ffenestri a gwelliannau i systemau gwresogi yn lleihau'r defnydd o ynni'n uniongyrchol, sy'n rhan allweddol o'n llwybr at sero net.

Trwy wella perfformiad thermal ein cartrefi a diweddaru i'r systemau goleuo a gwresogi mwyaf effeithlon, rydym hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at leihau'r galw cyffredinol am ynni, gan gyd-fynd â'n targedau effeithlonrwydd ynni at y dyfodol.

## Olrhain ein cynnydd

Mae'r gwaith yma yn gwneud gwahaniaeth wrth wella EPC ein cartrefi, sy'n rhan allweddol o'n hymrwymiad i ddarparu cartrefi cynnes sy'n fforddiadwy i'w cynhesu i breswylwyr:

| Cyfradd EPC | nifer o gartrefi (eiddo ac yn cael eu rheoli) | % o'n cartrefi |
|---|---|---|
| A | 962 | 14% |
| B | 1,285 | 19% |
| C | 2,550 | 38% |
| D | 1,377 | 20% |
| E | 40 | 1% |
| F | 0 | 0% |
| G | 0 | 0% |
| Ddim ar gael | 563 | 8% |
| **Cyfanswm** | **6,777** | **100%** |

Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi cwblhau gwaith datblygu ar 295 o gartrefi newydd ac o'r rheiny:

**78% yn EPC A** **22% yn EPC B**

ASTUDIAETH ACHOS

## Datrysiad gwresogi 'Papur Nenfwd' yn helpu preswylwyr i arbed arian

Mae un o breswylwyr ClwydAlyn, Mike, sy'n byw yng Nghonwy, wedi bod wrth ei fodd gyda'r Papur Nenfwd NexGen, datrysiad gwresogi sydd wedi ei alluogi i arbed llawer ar ei filiau ynni.

Dywedodd Mike: "Mae'n rhagorol ac mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'n bywydau. Hyd yn oed ar y dyddiau oeraf yn y gaeaf, mae'r gwres yn fwy na digon.

"Fe gymerodd dipyn i ddysgu arfer hefo'r ap, ond erbyn hyn rwy'n gallu bod yn glyfar; mae wedi gostwng ein biliau ynni o dros eu hanner.

"Ac os byddaf yn mynd i ffwrdd, gallaf droi'r gwres i lawr o'r ochr arall i'r wlad trwy ddefnyddio'r ap!"





Esboniodd Tom Boome, Pennaeth Technegol, Blaengaredd a Hinsawdd yn ClwydAlyn: "Roeddem yn chwilio am ddatrysiad gwresogi fyddai'n helpu i ostwng biliau ynni i'n preswylwyr, gan gyd-fynd yn dda gyda'n nodau cynaliadwyedd.

"Mae'r Papur Nenfwd NexGen wedi cynnig dewis syml, gydag ychydig iawn o waith cynnal a chadw, sy'n gyflym a hawdd i'w osod, heb amharu gormod ar ein preswylwyr.

"Rydym yn gweld adborth cadarnhaol iawn gan breswylwyr, sydd wrth eu boddau gyda'r cynhesrwydd, costau rhedeg sylweddol is a'r gallu i weithredu'r system yn rhwydd o'r ap ar eu ffonau."

## Paratoi ar gyfer risgiau'r hinsawdd

Yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi, mae hefyd yn bwysig i ni fynd ati'n rhagweithiol i liniaru'r risgiau y mae newid hinsawdd yn eu dwyn o orgynhesu, difrod stormydd a llifogydd ar draws ein cartrefi presennol a newydd.

### Er mwyn cefnogi hyn, rydym yn gweithio tuag at:

- Fapio ein holl gartrefi i ddeall pa mor agored ydynt i risgiau hinsawdd erbyn 2026.
- Gweithredu ein rhaglen lliniaru effeithiau hinsawdd ar gyfer ein cartrefi presennol erbyn 2027.
- Ymgorffori mesurau lliniaru effaith hinsawdd a gwytnwch yn ein holl gartrefi a adeiladir o'r newydd erbyn 2028.



### Er mwyn ein helpu i gyrraedd yno, byddwn yn:

- Cynnal ymarfer pen desg gyda chefnogaeth arbenigwyr risgiau hinsawdd i fapio a modelu pa mor agored yw'n cartrefi i risgiau hinsawdd allweddol gan ddefnyddio system GIS a chronfeydd data ar-lein
- Adolygu ein cofnodion cwynion, ac adroddiadau trwsio blaenorol, i ddeall yn well pa aelwydydd sydd fwyaf agored i risgiau hinsawdd penodol a chreu llwybr carlam ar gyfer camau i liniaru'r rhain
- Archwilio sut y gallwn fapio pa mor agored yw'n cartrefi presennol i risgiau hinsawdd yn ein harolygon cyflwr a chynnwys y rhain yn ein Strategaeth Rheoli Asedau a safon foids i gryfhau eu gwytnwch (gyda chamau fel cynyddu'r tirlunio a chynnal a chadw draeniau).
- Asesu'r risg o orgynhesu wrth ôl-osod a chynllunio cartrefi newydd er mwyn galluogi penseiri a datblygwyr i ddylunio cartrefi sy'n parhau'n gyfforddus yn ystod y tywydd poethach a ragwelir y disgwylir i newid hinsawdd ei ddwyn.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda phenseiri ac arbenigwyr hinsawdd i sicrhau bod cartrefi'n cael eu dylunio gyda chamau lliniaru effeithiau newid hinsawdd o'r dechrau i leihau'r angen am ôl-osod yn y dyfodol.



"Roedd yn wych galw heibio hen Felin Fali i weld datblygiad newydd Cymdeithas Tai ClwydAlyn a Chyngor Ynys Môn. Maent yn gartrefi o ansawdd uchel, gan fanteisio ar y dechnoleg amgylcheddol ddiweddaraf i sicrhau bod yr eiddo mor effeithlon o ran ynni ag sy'n bosibl i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a chadw biliau i lawr."

**Rhun Ap Iowerth AS Ynys Môn, Arweinydd Plaid Cymru**

Thema 2:

# Ecoleg

## Gwella mannau gwyrdd a bioamrywiaeth

Mae rhan allweddol o'n Strategaeth Cynaliadwyedd yn ymwneud â gwella mannau gwyrdd a hyrwyddo bioamrywiaeth, sydd hefyd yn elfen bwysig o Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023.

Credwn bod amgylcheddau naturiol sy'n ffynnu yn sylfaenol i gefnogi llesiant ein preswylwyr a chynaliadwyedd amgylcheddol tymor hir ein cymunedau. Dyna pam ein bod yn gweithio i greu mannau gwyrdd newydd a chadw'r rhai presennol ar draws ein datblygiadau gan gynnwys:

- **Mannau gwyrdd amrywiol:** Rydym yn sefydlu ardaloedd bywyd gwyllt cymunedol a mannau agored y gellir eu defnyddio. Er enghraifft, ar Ynys Môn rydym wedi creu perllan i'r gymuned yn ein datblygiad ym Mhentraeth a darparu llwybrau draenogod yn ein ffensys ar gyfer gerddi preifat ar Stad Bryn Glas. Roedd hyn yn rhoi mynediad uniongyrchol i'n preswylwyr at natur gan gyfrannu at ymdrechion ehangach tuag at lasu trefol.





Bywyd gwyllt yn mwynhau'r ardd synhwyraidd newydd yng Nghartref Nyrsio Llys y Waun

- **Plannu planhigion cynhenid a rhai sy'n gwrthsefyll sychder:** Rydym yn rhoi blaenoriaeth i blannu planhigion cynhenid a rhywogaethau sy'n gwrthsefyll sychder i gynnal bywyd gwyllt lleol. Mae hyn yn cynnal bywyd gwyllt lleol gan gynnwys peillwyr hanfodol fel gwenyn a gloÿnnod byw, gan greu ecosystemau gwydn a chynaliadwy.

ASTUDIAETH ACHOS

## Preswylwyr Llys Erw yn Creu Gardd Gymunedol sydd wedi ennill Gwobrau!

Yn ogystal â sicrhau ein bod yn creu mannau gwyrdd i breswylwyr eu mwynhau pan fyddwn yn adeiladu cartrefi newydd, rydym hefyd yn cefnogi preswylwyr mewn amrywiaeth eang o ffyrdd i greu eu rhai eu hunain.

Mwynhaodd preswylwyr Llys Erw, cymuned i rai dros 55 yn Rhuthun, greu gardd gymunedol a rhandir trawiadol, sydd wedi dod yn ganolbwynt i'r cynllun preswyl bywiog.

Dyfarnwyd Gwobr Baner Werdd Gymunedol i'r gofod cymunedol cynhwysol, a gafodd hwb trwy grant gan Cadwch Gymru'n Daclus, am ei gyfraniad i fioamrywiaeth yn lleol a hyrwyddo cynaliadwyedd.

Mae'r ardd, y mae'r preswylwyr yn gofalu amdani, yn ymfalchïo mewn amrywiaeth o ffrwythau a llysiau; sydd oll yn cael eu cynaeafu er budd y gymuned.

Dywedodd John, Cadeirydd y pwyllgor sy'n rheoli'r ardd: "Rydym yn annog pawb i ddod allan, boed yn arddwyr profiadol neu beidio. Mae'r ardd wedi ei chynllunio i fod yn gynhwysol, gan fod yn addas i'r rhai sydd â chymorth i gerdded ac anghenion symudedd eraill.





"Mae'n gweithredu fel man cyfarfod sy'n ein cysylltu ni i gyd. Mae gennym gynlluniau mawr, gan gynnwys creu cae blodau gwyllt i beillwyr, a gosod blychau adar ac ystlumod i'r bywyd gwyllt lleol."



Agoriad swyddogol yr ardd synhwyraidd newydd yn Llys y Waun, gyda help ein cymuned leol a'r preswylwyr.

## Gwella bioamrywiaeth a chysylltedd

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth trwy greu coridorau ac ardaloedd ar ein stadau lle gall natur a bywyd gwyllt ffynnu, fel:

- **Coridorau bioamrywiaeth** i gysylltu mannau gwyrdd ar draws stadau lle mae gennym gartrefi. Mae'r coridorau hyn yn cynnig cynefin hanfodol a llwybrau diogel i fywyd gwyllt lleol.
- **Ardaloedd dim torri a blodau gwyllt** i annog llystyfiant naturiol i dyfu a chefnogi rhywogaethau amrywiol.
- **Systemau draenio cynaliadwy (SuDS)** - Gan ei fod yn ofyn cynllunio yng Nghymru, rydym yn integreiddio SuDS yn ein cynlluniau tirlunio sydd nid yn unig yn rheoli'r dŵr sy'n rhedeg ar yr arwyneb a lleihau'r risg o lifogydd ond hefyd yn creu cynefinoedd newydd, cefnogol i fywyd gwyllt lleol.


Ein rhandir yn Garden City, Glannau Dyfrdwy


Blychau ystlumod wedi eu gosod ar ochr cartref newydd i gefnogi bioamrywiaeth a rhoi cynefin diogel i rywogaethau a ddiogelir.

### Mesur effaith

Rydym wedi gosod ymrwymiadau uchelgeisiol yn ein Strategaeth Cynaliadwyedd i'n galluogi i fesur a deall effaith ein gwaith:

- Yn 2026, ar ôl cwblhau arolygon safle, byddwn yn gosod targed i gynyddu'r nifer o blanhigion neu anifeiliaid cynhenid sy'n bresennol ar draws safleoedd ein swyddfeydd o 20% yn ogystal â tharged i greu a chynnal a chadw 30 cynefin newydd i gynnal bywyd gwyllt ar draws ein portffolio erbyn 2030.
- Erbyn 2026, bydd defnydd o unrhyw blaleiddiaid a chemegolion niweidiol eraill a all gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth ac iechyd yr ecosystem yn cael ei ddirwyn i ben.
- Bydd ein Cynllun Rheoli Bioamrywiaeth ar waith erbyn 2026.


Trwy'r ymdrechion hyn rydym yn anelu at drawsnewid ein cartrefi a'n cymunedau yn dirweddau bywiog, bioamrywiol sydd o fudd i natur a llesiant ein preswylwyr.

## Gweithredu ar lygrwyr

Rydym hefyd yn gweithio'n galed i reoli a lleihau llygrwyr oherwydd rydym yn deall y gwahaniaeth y gall hyn ei wneud wrth ddiogelu iechyd a'r amgylchedd. Dyma beth yr ydym yn ei wneud:

- Rydym yn arolygu ein cartrefi yn ofalus gan ddefnyddio'r System Farnu Iechyd a Diogelwch Tai i asesu'r tebygolrwydd y bydd peryglon yn y cartref a'u difrifoldeb, fel tamprwydd a thyfiant llwydni, i sicrhau bod unrhyw achosion a ddynodir yn cael sylw a'u datrys
- Rydym yn cadw cofrestr asbestos cyfredol i sicrhau bod yr holl waith trin a symud yn cael ei wneud gan weithwyr proffesiynol trwyddedig yn unol â rheoliadau caeth
- Fel rhan o'n safbwynt presennol ar reoli risg radon, rydym yn gweithredu rhaglen bum mlynedd i leihau pa mor agored yw pobl iddo a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau rheoleiddiol
- Rydym yn sicrhau bod deunydd peryglus fel paent, toddyddion a chemegolion yn cael eu gwaredu'n ddiogel i atal llygredd amgylcheddol, gan gynnwys hyfforddi ein timau cynnal a chadw ar ddulliau gwaredu priodol a defnyddio contractwyr gwastraff trwyddedig.

Rydym hefyd wedi gosod amcan tymor hir i sicrhau bod ansawdd yr aer yn ein cartrefi ar ei orau i leihau'r risg o fod yn agored i broblemau yn gysylltiedig ag iechyd. Fel rhan o hyn rydym yn anelu at fapio ein holl gartrefi erbyn 2028 i amlygu risgiau a phroblemau ansawdd aer mewnol fel ein bod yn gallu gweithredu ein cynlluniau gwella ansawdd aer yn 2029.











Rheolwr Datblygu ClwydAlyn, Brinley Williams gyda'r AS Jack Sargeant a fu'n ymweld â'n datblygiad newydd yn Northern Gateway ac roedd yn awyddus i weld y camau yr ydym wedi eu gosod i sicrhau bod y cartrefi newydd hyn yn parhau yn fforddiadwy. Fe wnaethom ddangos y gwaith yr ydym yn ei wneud gyda'n partneriaid technoleg i addysgu preswylwyr; gan gynnwys defnydd effeithlon o baneli solar a phympiau gwres sy'n galluogi biliau ynni i aros mor isel â phosibl.

Thema 3:

# Rheoli adnoddau

## Lleihau gwastraff a defnyddio ffynonellau cyfrifol

Rydym wedi ymrwymo i leihau effaith amgylcheddol ein gwaith wrth adeiladu cartrefi newydd a chynnal y rhai presennol trwy gael deunyddiau adeiladu o ffynonellau cyfrifol a thorri i lawr ar wastraff.

Mae'r gwaith o adeiladu ein cartrefi newydd yn cael ei fonitro yn ofalus i sicrhau ein bod yn rhoi blaenoriaeth i ddeunyddiau o ffynonellau cyfrifol trwy ddilyn safonau fel BES 6001, fframwaith ar gyfer cael cynnyrch adeiladu o ffynonellau cyfrifol, a FSC (Cyngor Stiwardiaeth Fforestydd).

Rydym yn rhoi adroddiad ar ein cynnydd i Lywodraeth Cymru ar gyfer pob prosiect yn y Pecyn Offer Gwerth i Gymru, set o adnoddau a chyfarwyddyd a ddyluniwyd i helpu sefydliadau yng Nghymru i ddarparu gwerth cymdeithasol a manteision ehangach.

**Trwy fesur perfformiad yn defnyddio'r pecyn offer rydym wedi sicrhau bod:**

**96%** o'r gwariant ar nwydd-dau/ gwasanaethau yng Nghymru

**65%** o ddeunyddiau'n cael eu hailgylchu ar y safle

**97%** o'r gwastraff yn cael ei ddargyfeirio o saf-leoedd tirlenwi

**74%** o'r deunyddiau a ddefnyddir o adnoddau adnewyddadwy

*Ein hamcan tymor hir ar gyfer deunyddiau o ffynonellau cyfrifol yw gwella carbon oes gyfan ein cartrefi newydd, gan gyd-fynd â thargedau gwyddoniaeth hinsawdd i gyflawni gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a thaclo tlodi tanwydd.*

Er mwyn cefnogi'r amcan hwn, rydym wedi gosod nifer o dargedau tymor byr a thymor hir. Mae'r rhain yn amrywio o'n cartrefi newydd yn cynhyrchu 50% o'r ynni y mae arnynt ei angen o ddulliau adnewyddadwy ar y safle (tymor byr) i gynnal astudiaethau peilot i gyfrifo a deall perfformiad carbon oes gyfan ein cartrefi newydd a gosod targedau sy'n cyd-fynd â chanllawiau'r sector fel (tymor hir). Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n contractwyr, dylunwyr ac awdurdodau cynllunio lleol i gynyddu'r ynni adnewyddadwy sy'n cael ei greu gan bob cartref, pan fydd caniatâd cynllunio'n caniatáu.

Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn i gyd, byddwn yn gyson yn adolygu technoleg a blaengaredd yn y farchnad i sicrhau bod y dechnoleg garbon isel, adnewyddadwy fwyaf addas yn cael ei gosod yn ein cartrefi.

## Gostwng ein hallyriadau cysylltiedig â nwyon tŷ gwydr a llygredd

Rydym yn gweithio tuag at dargedau i wella ein harferion rheoli gwastraff ar draws ein gweithgareddau adeiladu a'r ffordd yr ydym yn rheoli ein cartrefi i leihau ein hallyriadau yn gysylltiedig â nwyon tŷ gwydr a llygredd.



## Lleihau'r defnydd o ddŵr

Mae effeithlonrwydd dŵr yn rhan arall bwysig o'n Strategaeth Cynaliadwyedd, gan sicrhau ein bod yn lleihau'r llygryddion sy'n mynd i'n systemau dŵr a gwella effeithlonrwydd dŵr ar draws ein swyddfeydd a'n cartrefi.

**Rydym yn anelu at gyflawni hyn trwy:**

- Adolygu sut y mae ein busnes yn gweithredu i asesu pa gamau sydd gennym yn eu lle i leihau'r llygredd sy'n cael ei ryddhau i'r system ddŵr o'r cemegolion a'r ynni yr ydym yn eu defnyddio, a'r gwastraff yr ydym yn ei gynhyrchu.
- Cyflwyno dyfeisiadau a gosodiadau mwy effeithlon i sicrhau effeithlonrwydd dŵr ar draws ein swyddfeydd.



**Ein nodau yw:**

- Sicrhau y bydd 100% o'n gwastraff yn cael ei arallgyfeirio o safleoedd tirlenwi erbyn 2030.
- Cynyddu ein cyfraddau ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff i 75% erbyn 2027.
- Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir yn gyffredinol o 50% ar draws ein hystâd gorfforaethol erbyn 2030.

Er mwyn ein galluogi i gyflawni'r nodau hyn byddwn yn datblygu cynllun rheoli gwastraff yn ogystal â'r gofynion gwastraff yn Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023, Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 a'r Gyfraith Ailgylchu yn y Gweithle 2024.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n cymunedau a'n contractwr gwastraff newydd i olrhain sut yr ydym yn perfformio o ran ailgylchu ac arallgyfeirio o safleoedd tirlenwi ac yn rhoi adroddiad ar ein cynnydd i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â diweddaru a chynyddu'r gofynion yr ydym yn eu gosod i'n contractwyr ar gyfer ein cartrefi newydd yn ymwneud â defnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu a gostyngiad yn y gwastraff ar safleoedd.



Ar draws ein cartrefi newydd a phresennol, ein nod yw cyflawni arbediadau o 110 litr o ddŵr i bob person, y dydd erbyn 2034 trwy:

- Fapio 100% o'n cartrefi erbyn 2027 i ddeall y cyfleoedd i wella effeithlonrwydd dŵr.
- Ôl-osod camau gwella effeithlonrwydd dŵr i 50% o'n cartrefi erbyn 2030.
- Datblygu cynllun rheoli dŵr i'n helpu i leihau'r risg y bydd preswylwyr yn profi tlodi dŵr.



# Cymdeithasol



Thema 4:

## Fforddiadwyedd a diogelwch

**Sylfaenwyd ein polisi rhent fforddiadwy ar ystyried barn, incwm ac amgylchiadau personol ein preswylwyr, ac mae'n ystyried data cyfredol am yr incwm isaf. Rydym am sicrhau bod ein rhenti'n parhau'n fforddiadwy ac yn cynnig sicrwydd i breswylwyr mewn ffordd sy'n gyson a theg ar draws ein holl gartrefi.**

Yn 2024/25, mae'r ganran rhent i Lwfans Tai Lleol yn 81%.

Rydym yn gweithio yn ardal saith awdurdod lleol lle mae rheoliadau rhent yn weithredol. Mae'r gyfradd Lwfans Tai Lleol yn helpu i gyfrifo faint o fudd-dal tai (neu elfen tai credyd cynhwysol) y mae tenantiaid yn gallu ei dderbyn ar sail rhenti yn y farchnad breifat.

Yn 2024/25 roedd ein rhent cyfartalog yn 81% o'r swm uchaf o fudd-dal tai y gall tenantiaid preifat ei gael yn y saith sir yma. I sicrhau bod y rhif hwn mor deg â phosibl, rydym yn defnyddio'r meincnod rhent preifat drytaf (y gyfradd Lwfans Tai Lleol uchaf) o unrhyw un o'n saith ardal weithredu, oherwydd rydym am barhau mor fforddiadwy ag y gallwn i'n preswylwyr.

| Math o gartref | Nifer | % o gartrefi |
|---|---|---|
| Anghenion cyffredinol (rhent cymdeithasol) | 4327 | 63.85% |
| Rhent Canolradd | 276 | 4.07% |
| Tai â Chymorth | 223 | 3.29% |
| Cartrefi i bobl hŷn | 550 | 8.12% |
| Perchenogaeth cartref cost isel | 714 | 10.54% |
| Cartrefi gofal | 130 | 1.92% |
| Cartrefi Grŵp | 379 | 5.59% |
| Arall | 178 | 2.63% |

**Yn ystod 2024/25 fe wnaethom gwblhau 308 o gartrefi newydd ar draws amrywiaeth o ddaliadaethau i fodloni anghenion gwahanol a chynnig dewis a fforddiadwyedd i'n preswylwyr, gan gynnwys:**

**180** am rent fforddiadwy
(cartrefi lle mae'r rhent wedi ei osod ar gyfradd hyd at 80% o gyfradd y farchnad, gan gynnwys taliadau gwasanaeth) – 59%

**62** o gartrefi am rent canolradd
sy'n caniatáu i unigolion a theuluoedd cymwys rentu cartrefi o safon uchel ar gyfradd is na'r farchnad - 20%

**66** cartref i bobl hŷn - 21%



ASTUDIAETH ACHOS



## Cartrefi cynhwysol newydd ym Mynydd Isa

Mae darparu cartrefi sy'n cefnogi amrywiaeth eang o anghenion gwahanol yn hanfodol wrth ymdrin â'r prinder tai a galluogi mwy o bobl i gael dewis a sicrwydd.

Gwnaeth hyn wahaniaeth mawr i'r preswylydd Tara Richards a'i theulu a symudodd y flwyddyn ddiwethaf i'n datblygiad newydd o 56 o gartrefi am oes effeithlon o ran ynni, fforddiadwy ym Mynydd Isa, Sir y Fflint.

Roeddem yn gweithio ochr yn ochr â'r datblygwr Castle Green Partnerships, ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint a Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun.

Roedd Tara a'i gŵr Danny yn hapus eu bod yn symud i fyngalo hygyrch sydd wedi eu galluogi i ddarparu ar gyfer anghenion eu mab anabl.

Dywedodd Tara: "Ein hargraff gyntaf yw ein bod wrth ein bodd gyda'n cartref newydd.

"Mae'n gwneud popeth gymaint mwy hygyrch. Rydym yn symud i mewn er mwyn ein mab anabl i wneud ei fywyd yn haws, mae'n wyth mlwydd oed.

"Oherwydd ei fod yn fyngalo, nid oes grisiau i'w godi a bydd hyn yn cael effaith fawr; bydd popeth gymaint gwell i ni i gyd.

"Rydym wedi symud o lety preifat ar rent yn yr Wyddgrug ac roeddem ar y rhestr aros am dros dair blynedd. Mae'n gymaint o ryddhad ein bod yn symud."

## Darparu cartrefi cynnes

Mae cefnogi preswylwyr sy'n cael trafferth gyda chost cadw eu cartrefi yn gynnes yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn ein cenhadaeth i ddod â thlodi i ben. Trwy ein partneriaeth gyda Cymru Gynnes, rydym yn rhoi cyngor a chefnogaeth ynni penodol i breswylwyr o ran lleihau costau ynni, yn ogystal â darparu cyllid i helpu gydag ôl-ddyledion biliau ynni trwy ein Cronfa Breswylwyr £100,000.

WARM WALES CYMRU GYNNES + ClwydAlyn

**Fe wnaeth ein tîm Hawliau Lles ac Ymyrraeth Gynnar:**

- Roi cefnogaeth i **331** o breswylwyr
- Sicrhau **£1.5 miliwn** o enillion ariannol, cyfartaledd o **£4,500** y person.

## Tenantiaethau sicr

Rydym yn deall bod sicrwydd daliadaeth yn helpu i sicrhau bod preswylwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi, gan gefnogi eu gallu i ddod o hyd i waith, defnyddio rhwydweithiau a gwasanaethau cefnogi lleol ac adeiladu eu bywydau.

Rydym yn cynnig contractau sicr i deuluoedd ac unigolion ac i'n cartrefi cysgodol a gofal ychwanegol.

Yn ein cynlluniau byw â chefnogaeth, mae preswylwyr yn cychwyn ar gytundeb trwydded sy'n newid i gontract safonol â chefnogaeth ar ôl chwe mis, yn unol â gofynion Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.









Thema 5:

# Cynyddu diogelwch ac ansawdd

**Mae sicrhau bod preswylwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi yn flaenoriaeth uchel. Rydym yn cymryd hyn yn ddifrifol iawn, gan sicrhau ein bod yn bodloni'r holl ofynion rheoleiddiol, yn ogystal â thrwy ein hymrwymiad i gadw cartrefi mewn cyflwr da.**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

**100%** o'n cartrefi wedi cael y gwiriadau diogelwch gofynnol i gyd

**100%** o'n cartrefi wedi cael y gwiriadau risg tân gofynnol i gyd

**99.45%** o'n cartrefi wedi cael adroddiadau cyflwr gosodiadau trydanol yn unol â'r cylch profi pum mlynedd

**100%** o'n cartrefi yn cyrraedd Safonau Ansawdd Tai Cymru




Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda phreswylwyr i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y newidiadau yn y Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023 diwygiedig, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar effeithlonrwydd ynni, iechyd a llesiant, diogelwch a sicrwydd a chyfleusterau modern.

## Tamprwydd, llwydni ac anwedd

Rydym wedi bod yn gweithio i gryfhau'r ffordd yr ydym yn rheoli tamprwydd a llwydni, gan gydnabod y gall hyn fod yn bryder gwirioneddol i breswylwyr.

Rydym wedi creu polisi newydd sy'n mapio proses glir ar gyfer rheoli achosion o damprwydd a llwydni. Mae'r holl achosion y ceir adroddiad amdanynt yn awr yn mynd trwy system triage lle mae ein tîm cwsmeriaid yn gofyn cwestiynau allweddol pan roddir adroddiad am bryder, yn ogystal â chael lluniau/fideos o unrhyw achosion pan fydd hynny'n bosibl.

Mae'r achosion wedyn yn cael eu hadolygu gan ein tîm eiddo cyn pen 24 awr a'u hasesu gan ddefnyddio system goleuadau traffig i bennu a oes angen ymweliad â'r cartref a pha mor gyflym y mae angen hynny.




### COCH

Risg Uchel - Perygl Categori 1 - Band A–C

- Llwydni du eang.
- Lleithder parhaus mewn sawl ystafell.
- Effeithiau ar iechyd (e.e. asthma).
- Dyletswydd gyfreithiol i weithredu.

### AMBR

Risg Gymedrol - Perygl Categori 2 - Band D–F

- Llwydni lleol (mewn ystafell ymolchi).
- Problemau anwedd.
- Arwyddion cynnar o leithder.
- Camau dewisol.

### GWYRDD

Risg Isel – Dim Perygl - Band G–J

- Dim llwydni na lleithder gweladwy.
- Awyru a gwresogi da.
- Problemau wedi'u datrys.
- Dim angen gweithredu.

Thema 6:

# Llais y preswylwyr

**Mae gwrando ar breswylwyr, eu cynnwys a'u galluogi i ddylanwadu ar y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yn ganolog i bopeth a wnawn yn ClwydAlyn.** Mae ein Strategaeth Cynnwys Preswylwyr yn nodi sut yr ydym yn gweithio gyda phreswylwyr i'w galluogi i rannu eu syniadau a helpu i ffurfio ein gwasanaethau trwy amrywiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan mewn ffyrdd sy'n gynhwysol, hyblyg ac yn bodloni eu hymrwymiadau personol a bywyd.

Rydym yn darparu ffyrdd i breswylwyr gael dylanwad ar benderfyniadau yr ydym yn eu gwneud a'u herio a'n dal i gyfri. O'n Pwyllgor Preswylwyr a #DylanwadaArnomNi (gweler y dudalen nesaf), i'n panel cwynion, grwpiau ffocws ac aelodau'r preswylwyr o'r bwrdd, rydym yn gweithio gyda'n preswylwyr i roi cyfleoedd iddynt wirio ac asesu ansawdd ein gwasanaethau a sicrhau ein bod yn cael ein llywodraethu'n dda ac yn atebol.



## Aelodau'r Preswylwyr o'r Bwrdd

Mae dau aelod o fwrdd ClwydAlyn yn breswylwyr, sydd, ynghyd ag aelodau eraill y bwrdd, yn sicrhau bod preswylwyr yn ganolog i'r holl benderfyniadau strategol.

## Panel Cwynion

Mae'r Panel Cwynion yn cynnwys aelodau'r Pwyllgor Preswylwyr a gwirfoddolwyr o blith y preswylwyr ac mae'n adolygu'r cwynion diweddaraf, yn dynodi unrhyw themâu neu feysydd sy'n achosi pryder ac yn cynnal 'archwiliad dwfn' o gwynion, gan roi sicrwydd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Preswylwyr bod ymarfer gorau yn cael ei ddilyn ac unrhyw wersi a ddysgir yn cael eu gweithredu.


## Pwyllgor Preswylwyr

Mae gennym bwyllgor preswylwyr amrywiol sy'n cynnwys amrywiaeth o breswylwyr o bob rhan o'n gwasanaethau. Mae'r pwyllgor yn adolygu cwynion preswylwyr, yn craffu ar y gwersi a ddysgwyd, yn helpu i roi gwybodaeth ar gyfer polisi ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd a rheolwyr ClwydAlyn.



## Cynnwys Preswylwyr a #DylanwadaArnomNi

#DylanwadaArnomNi yw ein rhaglen cynnwys preswylwyr i'r diben sy'n ceisio barn preswylwyr ar bob agwedd o waith ClwydAlyn.




### Yn 2024/25:

- Ymunodd **23** aelod newydd â #DylanwadaArnomNi
- Mae **190** o aelodau erbyn hyn



Creu cysylltiadau a rhannu syniadau gan gael effaith parhaol yn y gymuned.

## Mudiad Agenda'r Tenant

Gan weithio ar y cyd â phreswylwyr a darparwyr tai ar draws Gogledd Cymru, gyda chefnogaeth Prifysgol Wrecsam a phractis arwain sy'n gweithio ar draws Cymru a Lloegr o'r enw Do-Well, rydym wedi bod yn archwilio sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i ddatblygu arweiniad tenantiaid sy'n fwy gweithredol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwaith hwn wedi cynnwys treulio amser yn dysgu gyda'n gilydd am systemau arwain a grym a rhoi amser i archwilio beth sydd o bwys i denantiaid i lunio diben clir, cyffredin.

Yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg o'r gwaith hwn yw bod ar denantiaid eisiau mwy na dim ond bod ar yr agenda pan ddaw'n fater o fod yn rhan o ddylanwadu a llunio penderfyniadau, mae arnynt eisiau mwy o ran wrth osod yr agenda a phennu'r problemau sydd wirioneddol o bwys iddyn nhw.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod i alluogi tenantiaid sy'n rhan ohono i gynyddu'r gefnogaeth a thyfu'r mudiad.

ASTUDIAETH ACHOS

# Panel Cwynion Preswylwyr



Mae Peter Smith Hughes yn aelod o Fwrdd ClwydAlyn, yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Preswylwyr ac yn aelod o'r Pwyllgor Sicrwydd. Dywedodd Peter:

"Fel cymdeithas, mae ClwydAlyn yn croesawu mewnbwn preswylwyr ac yn ymdrechu i sicrhau bod llais y preswylwyr yn cael ei glywed. Rwy'n falch o fod yn rhan o banel sefydledig o breswylwyr sy'n defnyddio ein profiad personol i weithio mewn partneriaeth â ClwydAlyn, gan roi dealltwriaeth, adborth a dadansoddiadau am wasanaethau, polisïau a pherfformiad.

Mae'r panel yn cynrychioli safbwynt y preswylwyr, gan sicrhau bod atebolrwydd a bod unrhyw gwynion yn cael eu trin yn briodol, sydd, yn fy mhrofiad i, yn



rhan bendant o bolisi sefydliadol ClwydAlyn.

Mae aelodau Panel Llais y Preswylwyr ClwydAlyn yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael eu clywed, ac maent yn teimlo eu bod wedi eu grymuso o fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae sicrhau bod deilliannau yn digwydd heb duedd a chynyddu'r ymddiriedaeth rhwng preswylwyr a ClwydAlyn yn galluogi'r sefydliad i wella'r ddarpariaeth, cyfathrebu a pholisïau.

Croesawir adborth gan y panel ac fe'i gwelir fel cam cadarnhaol ac angenrheidiol tuag at dryloywder ac atebolrwydd. Nid sioe yn unig yw'r Panel, mae iddi ystyr gwirioneddol, ac mae'n cynhyrchu llais cryfach i holl breswylwyr ClwydAlyn."



## Bodlonrwydd preswylwyr



Yn ClwydAlyn, rydym yn ymdrechu i fod yn landlord gwych yn gyntaf ac yn bennaf, ac rydym yn cynnal arolygon yn gyson i ddeall pa mor fodlon yw preswylwyr ar eu cartrefi a'r gwasanaethau.

Yn 2024/25, roedd y bodlonrwydd cyffredinol ar wasanaethau landlord yn 85% - 6% yn uwch na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig ac roeddem yn 2il mewn cymhariaeth â landlordiaid eraill yng Nghymru.

Roeddem yn falch o fod wedi cynnal cyfraddau uchel tebyg ar gyfer bodlonrwydd yn ymwneud â meysydd fel preswylwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi ac ansawdd y cartrefi.

Roeddem hefyd ymhlith y 25% uchaf ymhlith holl landlordiaid y Deyrnas Unedig am ein dull o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, rhywbeth sy'n wirioneddol bwysig i alluogi preswylwyr i deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau.

## Bodlonrwydd ar wasanaethau gofal a nyrsio

Trwy adborth a gasglwyd gan www.carehome.co.uk, y brif wefan a ddefnyddir gan bobl sy'n ymchwilio i gartrefi gofal, roedd ein cynllun yn Llys y Waun yn gyntaf ymhlith yr holl gartrefi gofal yn Sir Wrecsam, gyda dyfarniad cyffredinol o 9.9 allan o 10.

Roedd Merton Place hefyd yn bumed ymhlith yr holl gartrefi nyrsio yn Sir Conwy, gyda dyfarniad cyffredinol o 7.9 allan o 10.








## Dysgu oddi wrth adborth

Fel sefydliad sy'n dysgu rydym wedi ymrwymo i wrando ar farn ac adborth preswylwyr i ddeall ble gallwn wella.

Rydym yn parhau i weithio gyda phreswylwyr i werthuso ein canlyniadau bodlonrwydd ac edrych ar feysydd lle mae'r bodlonrwydd yn is nag y byddem yn ei ddymuno.

Rydym yn trin pob cwyn neu bryder a godir fel cyfle i ddysgu a chasglu adborth gwerthfawr. Os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, ein nod yw i unrhyw breswyliwr dan sylw ymddiried ynom ni y byddwn yn gwneud ein gorau i ddatrys problem, ac y byddant yn cael eu trin gyda pharch a charedigrwydd.




## Yn 2024/25:

- Fe wnaethom dderbyn **554** o gysylltiadau trwy ein proses gwynion
- O'r rhain fe wnaethom weithio gyda'r preswylwyr dan sylw i ddatrys **472** ar unwaith
- datryswyd **55** ar gam 1
- datryswyd **27** ar gam 2
- ystyriwyd **10** o gwynion gan yr Ombwdsmon, ond ni chadarnhawyd yr un ohonynt

Rydym wedi gweithio gyda'n Panel Cwynion Preswylwyr i'w gwneud hi mor hawdd â phosibl i gysylltu â ni a chyflwyno cwynion neu ganmoliaeth, oherwydd rydym am chwalu rhwystrau, annog preswylwyr i fynegi unrhyw bryderon pan fydd arnynt angen gwneud hynny, a hyrwyddo ein proses gwynion/canmoliaeth fel ein bod yn gallu parhau i wrando a gwella.

**Rydym yn falch iawn bod y nifer o negeseuon canmol ffurfiol yr ydym yn eu derbyn hefyd wedi cynyddu, gyda chwech wedi ei derbyn yn chwarter olaf y flwyddyn.**

## Enghraifft o rai negeseuon canmol a dderbyniwyd gan y Tîm Cwynion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

"Ar ôl derbyn help gan un o'r Swyddogion Hawliau Lles a Chyngor Ariannol: Ffoniodd preswyliwr yn ôl i roi adborth a diolch i ni am y gwaith yr oeddem wedi ei wneud i helpu gyda'i sefyllfa ariannol. Roedd yn ddiolchgar iawn am ein cefnogaeth, gan gydnabod y gwasanaeth gwerthfawr a nododd y gall hi erbyn hyn fynd â'i chi allan am dro ac anadlu!"

"Roeddwn am gymryd eiliad i ddiolch i chi am yr holl gefnogaeth yr ydych wedi ei rhoi i mi'n ddiweddar. Mae eich help gyda'r atgyfeiriadau wedi bod yn amhrisiadwy, ac rwyf mor ddiolchgar am yr hamper bwyd y gwnaethoch ei rhoi i ni, fe wnaeth wahaniaeth gwirioneddol yn ystod cyfnod heriol. Nid yw eich caredigrwydd a'ch ymdrech wedi mynd heb i mi sylwi arnyn nhw, ac rwy'n gwerthfawrogi popeth yr ydych wedi ei wneud i'n helpu i ddod yn ôl ar ein traed. Diolch yn fawr iawn i chi am fynd y filltir ychwanegol."

"Rwy'n ysgrifennu atoch heddiw yn rhinwedd fy swydd ar ran Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Ddinbych. Hoffwn roi ychydig o adborth o ran un o'ch gweithwyr sy'n gweithio yn adran y Rhyl. Rwyf wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â hi ar achos ac mae'n rhaid i mi ddweud ei bod y n glod i'ch gwasanaeth. Mae'n wych gyda'r Preswyliwr, yn mynd y filltir ychwanegol i sicrhau ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei chefnogi a'u gwerthfawrogi, a llawer mwy, rwyf wedi gweld y gwaith y mae wedi bod yn ei wneud ac mae'n rhagorol. Mae'n amlwg iawn bod y person yn teimlo'n gyfforddus ac wedi ei chysuro, ac mae perthynas broffesiynol wedi ei llunio. Mae'n amlwg i mi ei bod yn ased anferth i'ch tîm."

Thema 7:

# Cefnogi Preswylwyr

**Fel rhan o'n polisi dim troi allan, rydym yn canolbwyntio ar weithio gyda'n preswylwyr i ddeall eu hamgylchiadau ac unrhyw gefnogaeth all fod arnynt ei hangen i gynnal eu tenantiaethau yn llwyddiannus.**

Dyma pam ein bod yn defnyddio dull ar sail y gymuned, gyda'n timau tai yn gweithio mewn ardaloedd cymunedol bach o tua 250 o gartrefi i bob swyddog, i'n galluogi i ganolbwyntio ar lunio perthnasoedd o ymddiriedaeth.

Rydym yn seilio ein polisi gosod rhent ar fodel Rhent Byw Sefydliad Joseph Rowntree, sy'n cynnwys fforddiadwyedd mewn unrhyw benderfyniadau gosod rhent.

JRF

JOSEPH ROWNTREE FOUNDATION

## Cronfa'r Preswylwyr

Mae ein Cronfa'r Preswylwyr yno i helpu preswylwyr sy'n profi caledi neu argyfwng ariannol.

**Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ddarparu cyfanswm o £56,000 o gefnogaeth gan gynnwys:**

- **Darparu bwyd mewn argyfwng** ☑
- **Help gyda biliau ynni** ☑
- **Dodrefn hanfodol** ☑
- **Cefnogaeth gydag ôl-ddyledion rhent** ☑
- **Clirio cartrefi** ☑
- **Nwyddau gwyn** ☑
- **Yswiriant cynnwys** ☑
- **Help i reoli plâu** ☑

Roedd y bodlonrwydd bod ein rhenti yn cynnig gwerth am arian yn 2024/25 yn **81%**,- 1% yn uwch na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig

Roedd y bodlonrwydd cyffredinol ar ein gwasanaethau fel landlord yn **85%** - 6% yn uwch na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig ac roeddem yn 2il mewn cymhariaeth â landlordiaid eraill yng Nghymru

Roedd y bodlonrwydd cyffredinol ar ein gwasanaethau yn **85%** - 6% yn uwch na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig ac roeddem yn 2il mewn cymhariaeth â landlordiaid eraill yng Nghymru

## Cefnogaeth ariannol

Yn ogystal â helpu preswylwyr sy'n cael trafferth gyda'u biliau ynni, mae ein tîm Hawliau Lles a swyddogion Ymyrraeth Gynnar yn parhau i helpu preswylwyr i roi hwb i'w hincwm, gan amrywio o gefnogaeth gyda cheisiadau am daliadau annibyniaeth bersonol a chyngor ar gyllidebu, i asesiadau addasrwydd i waith, atgyfeiriadau cymorth dyledion a thaliadau tai dewisol.



## Cefnogi llesiant preswylwyr

Nid yn unig mae cefnogi llesiant ein preswylwyr yn bwysig wrth eu galluogi i reoli a chynnal eu tenantiaethau, mae'n ganolog i'n cenhadaeth o ddod â thlodi i ben.

Rydym am i'n holl breswylwyr fyw mewn cartrefi cynnes y gallant fforddio eu gwresogi a chael mynediad at fwyd fforddiadwy, iach sy'n cynnal eu llesiant.




> "Mae'r costau byw cynyddol yn parhau i greu heriau gwirioneddol i lawer o bobl pan ddaw'n fater o gael mynediad at fwyd fforddiadwy, iach. Mae gwasanaethau Bwydo'n Dda yn ffordd wych o'i gwneud hi'n haws a mwy fforddiadwy i fwyta'n dda ac adeiladu ar y gwaith sylweddol y maen nhw'n arwain arno ar draws Gogledd Cymru i gefnogi cymunedau gyda mynediad at fwyd iach." – **Clare Budden, Prif Swyddog Gweithredol ClwydAlyn**

## Partneriaeth Bwydo'n Dda

Mae ein partneriaeth gyda'r fenter gymdeithasol, Bwydo'n Dda, yn ein galluogi i weithio tuag at y nod a rennir gennym, dylai bwyd llesol fod yn hawl, nid yn fraint.

Mae'r costau byw cynyddol wedi ei gwneud yn heriol i lawer gael prydau fforddiadwy, maethlon - rhwng Mai 2021 a Mai 2024 mae prisiau bwyd wedi codi 30.6% (Adroddiad Costau Byw Cartrefi Cymunedol Cymru Hydref 2024).

Gan weithio gyda Bwydo'n Dda, rydym am daclo'r her hon trwy ddarparu mynediad at brydau maethlon mewn amrywiol ffyrdd i'n preswylwyr, cymunedau a'n cydweithwyr.

Mae hyn yn cynnwys siopau symudol Bwydo'n Dda, sy'n darparu dewisiadau bwyd ffres ac iach i gymunedau lle gall y mynediad at archfarchnadoedd fod yn gyfyngedig, pecynnau popty araf a bagiau rysáit, prydau parod heb fwyd wedi'i brosesu'n eithafol, ynghyd â cheginau coginio symudol.

Yn ystod y flwyddyn lansiodd Bwydo'n Dda eu MealVend newydd, peiriant gwerthu bwyd clyfar ar gyfer gweithleoedd i gynyddu'r cyfle i gael prydau iach yn ystod y diwrnod gwaith, a MealLockers, loceri bwyd wedi eu hoeri yn yr awyr agored sy'n fan casglu i gymunedau.



**Yn ystod 2024/2025, fe wnaethom gefnogi 229 o breswylwyr gyda'r heriau yr oeddynt yn eu hwynebu:**

**65** yn gysylltiedig â thlodi bwyd

**15** yn gysylltiedig â thlodi tanwydd

**70** yn gysylltiedig ag amgylchiadau yn eu cartrefi

**67** yn gysylltiedig ag iechyd a llesiant preswylwyr

**4** yn gysylltiedig â chyflogaeth ac addysg

**8** wedi eu datrys yn uniongyrchol gan eu swyddog tai

Mae ein timau tai hefyd wedi bod yn gweithio i gefnogi 612 o breswylwyr y mae'r symud i Gredyd Cynhwysol wedi effeithio arnynt.

## Cefnogaeth yn ystod cyfnod y Nadolig

Oherwydd effeithiau'r argyfwng costau byw a'r caledi ariannol y mae rhai preswylwyr yn eu hwynebu, rhoddodd ClwydAlyn gefnogaeth trwy roi talebau bwyd dros y Nadolig y llynedd i helpu preswylwyr i brynu'r bwyd yr oedd arnynt ei angen yn ystod y cyfnod hwn.

Rhoddwyd talebau bwyd gwerth £1,625 i 87 aelwyd yn ystod Rhagfyr 2024.

Darparodd ein cydweithwyr hefyd anrhegion Nadolig i 69 o breswylwyr a oedd naill ai yn unig yn gymdeithasol neu yn cael trafferthion ariannol a phlant ganddynt ar yr aelwyd.






Gyda help gan ein cydweithwyr, preswylwyr, contractwyr a chyflenwyr, fe wnaethom hefyd gyfrannu gwerth dros **£4,000** o fwyd i fanciau bwyd lleol – sy'n cyfateb i **1573kg** o fwyd, digon i borthi tua **224** o bobl.

## Croesawu preswylwyr newydd

**Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom groesawu 649 o breswylwyr newydd:**

**42** i gartrefi fforddiadwy

**100** 100 i ofal ychwanegol

**357** i gartrefi anghenion cyffredinol

**57** i gartrefi grŵp

**93** i fyw â chefnogaeth





# Byw â chefnogaeth

Mae ein gwasanaethau byw â chefnogaeth yn rhoi llety diogel a chefnogaeth i bobl sydd wedi mynd yn ddigartref neu angen help arbenigol. Gyda chynlluniau byw â chefnogaeth ar draws Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, mae ein timau ymroddedig yn cefnogi pobl i ymdrin â'r problemau a wnaeth iddynt fynd yn ddigartref ac i ddatblygu sgiliau i'w helpu i gadw eu cartrefi eu hunain yn y dyfodol.



**Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi cefnogi 377 o breswylwyr, o'r rheini:**

**99** symudodd 99 o breswylwyr ymlaen i fyw'n annibynnol

**122** mae 122 o breswylwyr wedi ymwneud â chyflogaeth, cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant a chyrsiau addysg

**156** mae 156 o breswylwyr wedi cael cymorth i gynyddu eu hincwm a rheoli eu harian yn well

**186** mae 186 o breswylwyr wedi derbyn cymorth iechyd meddwl

**96** derbyniodd 96 o breswylwyr gymorth i wella eu hiechyd corfforol

**12** cafodd 12 o breswylwyr o'n gwasanaethau byw â chefnogaeth, gyda chymorth tîm ClwydAlyn, daith diwrnod i Glan Llyn i ganŵio, gwneud crefftau'r gwyllt a dysgu sgiliau rhaffau uchel i helpu i gynyddu eu gwytnwch a'u sgiliau cymdeithasol.

"Yng Nglan Llyn fe benderfynais wthio fy hun i ymuno yn y gweithgareddau yr oeddwn yn teimlo eu bod yn heriol oherwydd fy niwropatheg berifferol. Fe wnes i geufadu a'r cwrs rhaffau uchel, er nad oeddwn yn sicr am fy ngallu. Dangosodd y profiad hwn nad yw fy anabledd yn fy nal yn ôl. Fe wnes i hefyd gysylltiadau gyda phreswylwyr nad wyf yn siarad hefo nhw fel arfer, o weithio gyda'n gilydd fel tîm ar y ceufadau, ac ymddiried ynddyn nhw i ddal y rhaff wrth i mi fentro'r 'naid ffydd'. Dysgodd y daith hon i mi, trwy gamu allan o'r lle rwyf yn gyfforddus ynddo, y gallaf ddarganfod cryfderau newydd a chreu cysylltiadau hefo pobl eraill."



ASTUDIAETH ACHOS

## Graddedigion Cwrs Adfer o Gaethiwed

Llwyddodd pedwar o breswylwyr o un o'n cynlluniau byw â chefnogaeth yn Sir y Fflint i raddio o gwrs pedwar diwrnod am 'Adfer Greddfol ac Ail-addysgu ar ôl Caethiwed'.

Mae'r cwrs sy'n cael ei redeg gan Intuitive Thinking Skills, yn rhaglen ddirwest wedi ei hachredu sy'n rhoi'r offer i'r rhai sy'n mynychu ddweud 'na'.

Roedd y cynnwys wedi ei deilwrio i fodloni anghenion penodol y pedwar oedd yn mynychu ac roedd yn cael ei rannu mewn amgylchedd anffurfiol a chroesawus, i annog y preswylwyr i siarad yn agored.

Gwnaeth pawb oedd yn mynychu ymrwymiad i wneud newidiadau cadarnhaol i wella eu bywydau. Dywedodd un oedd yn mynychu: "Fe wnes i wirioneddol fwynhau'r gweithdy. Fe wnes i ddysgu llawer am fy ffordd o feddwl a'm teimladau a ffyrdd newydd o ymdopi mewn cyfnodau anodd. Mae'r cwrs yma wedi gwirioneddol agor fy llygaid."



Dywedodd rheolwr y cynllun, Sean: "Rwy'n anhygoel o falch o'r hyn mae'r rhai fynychodd wedi ei gyflawni. Maen nhw wedi mynd oddi yma gydag athroniaeth wahanol ac rwy'n gallu gweld y byddan nhw'n gallu defnyddio'r hyn y maen nhw wedi ei ddysgu yn y dyfodol."

Trwy gymryd rhan yn y cwrs, teimlai'r pedwar a fynychodd eu bod wedi cael sgiliau, gwybodaeth ac offer i adnabod eu hymddygiad eu hunain a threfnu cynllun ystyrlon ar gyfer eu dyfodol.

## WeMindTheGap

Rydym hefyd wedi datblygu ein partneriaeth gyda'r elusen symudedd cymdeithasol, WeMindTheGap i gofrestru preswylwyr ar eu rhaglenni cyflogadwyedd, oedd yn cynnwys wyth o breswylwyr o Lys Emlyn Williams. Fel rhan o'n cefnogaeth i WeMindTheGap, rydym hefyd wedi cynnig profiad gwaith i wirfoddolwyr a chyflogi un o'r rhai fu ar y cwrs ar gontract amser llawn, parhaol, a ddywedodd:

"Roeddwn ar y rhaglen gyda WeMindTheGap am chwe mis ac fe gefais hyder, gwytnwch a bydolwg wahanol o ran sut y mae pobl yn meddwl a theimlo. Wrth weithio gyda WeMindTheGap roeddwn yn gallu gwthio fy hun allan o'm lle cyfforddus, er enghraifft, cefais y cyfle i siarad dros Gymru yn San Steffan yn Llundain - heb WeMindTheGap fyddwn i erioed wedi cael y cyfle gyda ClwydAlyn."

## Cymorth i Ferched ClwydAlyn

**Cefnogodd ein gwasanaeth cam-drin domestig 712 o bobl. O'r rhai y rhoddwyd cymorth iddyn nhw:**

**24** Symudodd 24 ymlaen yn llwyddiannus

**65** Mae 65 wedi ymwneud â chyflogaeth, cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant a chyrsiau addysg

**64** Mae 64 wedi derbyn cymorth iechyd meddwl

**291** derbyniodd 291 gymorth i gynyddu eu hincwm a rheoli eu harian yn well

**391** mae 391 wedi gallu gwella eu hiechyd corfforol gyda chymorth y gwasanaeth

Cefnogodd ein canolfan FEDRA'I yn y Rhyl hefyd, yr ydym yn ei chynnal mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu lle croesawus, diogel i unrhyw un sydd angen cefnogaeth iechyd meddwl neu lesiant, 1,753 o bobl, gan gynnwys:

FEDRA'I
Law yn llaw at iechyd meddwl

**29** 29 o gleientiaid i gael mynediad at waith, cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant a chyrsiau addysg

**210** cofnododd 210 o bobl well iechyd meddwl gyda chefnogaeth gan y gwasanaeth

"Mae gallu cael sgwrs bob wythnos gyda staff FEDRA'I heb feirniadaeth ac iddyn nhw wrando arnaf wedi newid fy mywyd ac rwyf erbyn hyn mewn lle i edrych ymlaen at fynd yn ôl i weithio llawn amser ac yn edrych ar wirfoddoli, rwy'n dechrau mwynhau bywyd eto."

Thema 8:

# Creu lleoedd

**Rydym yn credu bod angen i gartrefi da fod yn rhan o leoedd a chymunedau sy'n ffynnu.**

Rydym yn dilyn Siarter Creu Lleoedd Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar greu a rheoli lleoedd o safon uchel, cynaliadwy sy'n rhoi'r pwyslais ar bobl, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, i gyflawni datblygiadau newydd mewn modd holistaidd, cynaliadwy.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyflawni nifer o brosiectau newydd a ddyluniwyd gyda chreu lleoedd yn ganolog iddynt, gan chwilio yn rhagweithiol am leoliadau da sy'n cynnig cysylltedd rhagorol at gyfleusterau lleol a rhanbarthol.

**Mae'r datblygiadau hyn a gynlluniwyd yn ofalus yn amlygu ein hymrwymiad i fyw cynaliadwy trwy:**

- Ymgorffori teithio gweithredol i annog cerdded, beicio a theithio cynaliadwy.
- Sicrhau cysylltiadau â chyfleusterau cymunedol ehangach fel bod preswylwyr yn gallu cael mynediad rhwydd atynt.
- Sicrhau bod cartrefi newydd yn agos at ysgolion a chyfleusterau addysgol eraill.

Trwy flaenoriaethu'r elfennau hyn, rydym yn creu, nid dim ond cartrefi, ond lleoedd gwirioneddol gysylltiedig, hygyrch a dymunol lle bydd pobl eisiau byw, dysgu a ffynnu am genedlaethau i ddod.

Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales
Llofnodydd y Siarter | Charter Signatory

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS






## Mae'r enghreifftiau yn cynnwys:

**Northern Gateway, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint** – Rydym wedi datblygu 100 o gartrefi newydd fel rhan o ddatblygiad preswyl strategol mwy i greu ymdeimlad newydd o le mewn ardal oedd yn rhan o'r hen waith dur. Bydd y datblygiad ehangach yn darparu 1,200 o gartrefi gydag elfennau dylunio i gryfhau creu lleoedd fydd yn canolbwyntio ar greu lleoedd agored, llwybrau beicio a cherdded a mynediad rhwydd at gyfleusterau lleol.







**Stryd Edward Henry, Y Rhyl –** Trwy ddymchwel 30 o fflatiau o safon isel iawn ar derasau hir heb unrhyw leoedd parcio na gerddi, rydym wedi trawsnewid yr ardal hon o'r Rhyl gan eu cyfnewid gyda 13 o gartrefi tri llawr effeithlon iawn o ran ynni i deuluoedd ar gyrion canol y dref.

"Gwnaeth manylder y gwaith sydd wedi mynd i'r eiddo newydd yma argraff fawr arnaf, mae'r unedau gorffenedig yn cyd-fynd â'r stryd ei hun. Mae'r cartrefi newydd yn effeithlon iawn o ran ynni ac mae ganddynt y dechnoleg arbed ynni ddiweddaraf un.

Rwy'n falch o weld bod gan yr eiddo, nid yn unig fannau parcio yn y cefn, ond hefyd le ar gyfer gwefrwyr EV."

**Y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth yng Nghyngor Sir Ddinbych**







"Rydym wedi cyffroi cymaint, mae'n mynd i wneud gwahaniaeth anferth i'n bywydau cael byw yma!"
**Un o breswylwyr Stryd Edward Henry**

# SAS DIY

Yn ClwydAlyn, mae buddsoddiad cymunedol yn mynd tu hwnt i gartrefi – mae'n ymwneud â chynnwys ein gwerthoedd o ymddiriedaeth, gobaith a charedigrwydd yn neunydd y cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt.

Enghraifft wych o hyn yw trwy ein pwyllgor chwaraeon a chymdeithasol sy'n cael ei arwain gan ein cydweithwyr, sydd wedi dod yn alluogydd grymus ar gyfer creu lleoedd, ymgysylltu â staff a chydlyniad cymunedol.

Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi ymwreiddio ein rhaglen Diwrnod Gwirfoddolwyr SAS DIY fel rhan ganolog o'n cynnig buddsoddi cymunedol, sy'n annog cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad i wirfoddoli eu hamser a'u sgiliau i wella lleoedd a rennir, meithrin balchder lleol a chreu perthnasoedd o ymddiriedaeth gyda phreswylwyr.

### Y llynedd:

- Cynhaliwyd 12 Diwrnod Gwirfoddoli ar draws cynlluniau ac ardaloedd ClwydAlyn.
- Cyfrannodd dros 130 o wirfoddolwyr (cydweithwyr, contractwyr, aelodau o'r teuluoedd) at fwy na 650 awr o gefnogaeth gymunedol.
- Ymunodd 11 aelod newydd â SAS.
- Sicrhawyd cyfraniadau a chyllid trwy gyllidebau mewnol a thrwy i bartneriaid yn ein cadwyn gyflenwi gefnogi ein gwaith.

## Diwrnod tacluso iard Tan y Fron

Gwella golwg yr iard ganolog yng nghynllun Tan y Fron yn Llandudno, gan greu amgylchedd mwy croesawus a chymdeithasol i'r preswylwyr.





## Paratoadau at arddwest Plas Telford

Tacluso ffrynt a thir uchaf Plas Telford, Acrefair, cyn garddwest i'r preswylwyr. Fe wnaeth y tîm hefyd gefnogi gwelliannau dan arweiniad y preswylwyr gan gynnwys gosod nodwedd dŵr a goleuadau solar, a ariannwyd yn rhannol trwy gyfraniadau preswylwyr.



Annwyl Clare

Rwy'n ysgrifennu i'ch llongyfarch ar y gwaith yr ydych chi a'ch staff wedi ei wneud yn wirfoddol i dacluso ac adfer yr ardd gymunedol yn Nhan y Fron yma yn Llandudno ar gyfer 10 mlwyddiant y datblygiad.

Mae mor dda gweld yr ardaloedd yma yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel a'u gwella i'r preswylwyr ac ymwelwyr allu eu mwynhau. Mae mannau agored a phlanhigion yn dda o ran ansawdd bywyd ond hefyd maent yn rhoi llawer o fanteision o ran iechyd.

Mae hefyd yn dangos y gall tai cymdeithasol fod o'r un safon uchel a'u cynnal a'u cadw'n dda, rhywbeth nad yw'n cael ei bortreadu ar y cyfryngau yn aml.

Gyda'r galw am dai mor uchel yn ein hardal mae'n bwysig ein bod yn sicrhau eu bod o safon uchel a dyna'r ydych chi'n ei wneud.

Unwaith eto, da iawn a diolch am eich holl waith yma yng Ngogledd Cymru.

Janet Finch-Saunders AS, Aberconwy

### Ailwampio gardd Llys Emlyn Williams

Adfer yr ardd yn ein cynllun byw â chefnogaeth yn Nhreffynnon, gan lanhau, clirio ac ail-blannu i greu ardal fywiog, hawdd ei defnyddio i'r preswylwyr ei mwynhau ac er budd eu llesiant.





### Gwelliannau i ardd Llys Eleanor

Peintio meinciau, adeiladu dodrefn gardd a thrwsio'r gwelyau i breswylwyr yn ein cynllun byw'n annibynnol yn Shotton sy'n cael trafferth i gynnal eu mannau yn yr awyr agored.

ASTUDIAETH ACHOS





# Llys y Waun yn Agor Gardd Synhwyraidd Fywiog

Rheolwraig Llys y Waun, Jane Humphreys, oedd yr un gafodd y syniad am ardd synhwyraidd newydd, a ddyluniwyd gyda phreswylwyr hŷn a phobl sy'n byw gyda dementia mewn golwg.

Mae'r ardd yn cynnig amgylchedd awyr agored ddiogel, sy'n ysgogi'r meddwl, lle mae natur, lliw, arogleuon, sŵn a gwead yn cyfuno i gefnogi llesiant, cof ac ymlacio. O lwybrau hygyrch, clychau gwynt swynol a dŵr yn rhedeg i flodau llawn arogleuon, nodweddion i ddal y llygad a gwelyau wedi eu codi sy'n ddelfrydol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn; mae pob elfen wedi ei hystyried yn ofalus i greu lle hollol gynhwysol i ymlacio.

Roedd creu gardd synhwyraidd Llys y Waun yn ymdrech tîm oedd yn cynnwys ymchwil eang, codi arian, ac oriau lawer o wirfoddoli gan staff a phreswylwyr. Y canlyniad yw profiad rhyfeddol, amlsynhwyraidd.

Daeth Kerry Evans, Swyddog Cyswllt Anabledd Clwb Pêl-droed Wrecsam draw i agor yr ardd synhwyraidd. Dywedodd: "Fe wnaeth yr ymdrechion i greu hafan ddiogel, groesawus i'r preswylwyr ei fwynhau argraff fawr arnaf.

"I bobl sy'n byw gyda dementia mae mor bwysig cadw eu meddwl yn fywiog ac wedi ei ysgogi a thrwy gael yr ardd newydd ryfeddol hon rydych wedi cyflawni hynny lawer gwaith trosodd."




# Llywodraethu

**Mae llywodraethu da yn allweddol i gyflawni ein cenhadaeth o ddod â thlodi i ben – Dyna sut yr ydym yn sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn sy'n iawn i'n sefydliad, ein preswylwyr a'n cydweithwyr.**

Thema 9:

## Strwythur a llywodraethu

**Rydym yn cael ein rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru ac yn flynyddol rydym yn cyflwyno Cynllun Hunanwerthuso a Gwelliant Parhaus blynyddol i ddangos sut yr ydym wedi cydymffurfio â phob un o'r Safonau Perfformiad a nodir yn y Fframwaith Rheoleiddiol.**

Mae ClwydAlyn yn Gymdeithas Fudd Gymunedol dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014, sy'n golygu ein bod yn gweithredu fel endid nid er elw, ac rydym yn aelodau o Gartrefi Cymunedol Cymru ac yn dilyn eu Cod Ymddygiad.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cartrefi Cymunedol Cymru



| Llywodraethu (gan gynnwys gwasanaethau tenantiaid) | | |
|---|---|---|
| Cydymffurfio | **Gwyrdd** | Mae'r gymdeithas yn cyrraedd y safonau rheoleiddiol a bydd yn cael goruchwyliaeth reoleiddiol arferol. |
| **Hyfywedd Ariannol** | | |
| Cydymffurfio | **Gwyrdd** | Mae'r gymdeithas yn cyrraedd y safonau rheoleiddiol a bydd yn cael goruchwychiaeth reoleiddiol arferol. |

**Rydym wedi ennill cyfradd 'Werdd' – yr uchaf posibl dan y fframwaith– ar gyfer rheolaeth ariannol a llywodraethu**

## Cynnal safonau gofal rhagorol

Fel darparwr gwasanaethau cofrestredig, rydym yn ddarostyngedig i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, sy'n rhoi'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, cafodd ein tri gwasanaeth cofrestredig arolwg heb hysbysiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Derbyniodd pob gwasanaeth adborth rhagorol, heb unrhyw feysydd nad oedd yn cydymffurfio.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**







## Rheoli risg


Mae rheoli risg yn alluogydd allweddol ar gyfer ein llwyddiant a'n gwytnwch tymor hir, ac rydym yn ei ystyried yn ddifrifol iawn.

Rydym yn defnyddio dull rhagweithiol, gan adolygu ein risgiau strategol a gweithredol bob chwarter.

Mae ein fframwaith rheoli risg yn gynhwysfawr ac wedi ymwreiddio'n dda, wedi ei seilio ar y Model Tair Llinell Amddiffynnol. Mae Bwrdd ClwydAlyn yn sicrhau bod y fframwaith yn parhau yn addas i'r diben trwy oruchwyliaeth ac adolygu cyson.

Mae risgiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn rhan ganolog o'r fframwaith hwn, gyda mapiau risg manwl yn eu lle ar gyfer meysydd allweddol gan gynnwys risgiau amgylcheddol (fel datgarboneiddio a gwytnwch i'r hinsawdd), llywodraethu ac effaith cymdeithasol, gan gynnwys ein gwaith ar dlodi, gwerth cymdeithasol a'n diwylliant sefydliadol.

Er bod rhai risgiau na allwn eu rheoli, fel y pwysedd ariannol cynyddol ar aelwydydd a busnesau, mae ein Tîm Gweithredol a'n Bwrdd yn chwarae rhan weithredol, yn ymgysylltu â chyrff y sector fel Cartrefi Cymunedol Cymru i ffurfio ac ymateb i ddatblygiadau mewn polisi, rheoleiddio a deddfwriaeth.




**Tair llinell o amddiffyniad**












Thema 10:

# Y Bwrdd

## Amrywiaeth a chynrychiolaeth

**Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein Bwrdd, Pwyllgorau a'n Tîm Gweithredol yn adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.**

Mae ein penodiadau diweddar wedi cryfhau amrywiaeth, gan ddwyn safbwyntiau ehangach a phrofiadau sy'n cyfoethogi ein llywodraethu a'n proses o wneud penderfyniadau.

Rydym yn sicrhau bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael eu hymwreiddio trwy gydol ein prosesau recriwtio a chynllunio olyniaeth.

Mae pob un o aelodau ein bwrdd yn cymryd rhan mewn arfarniad a hunanasesiad blynyddol i ddynodi unrhyw anghenion datblygu, ac rydym hefyd yn cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o fylchau mewn sgiliau ac amrywiaeth yn flynyddol.

Mae recriwtio yn seiliedig ar deilyngdod, gyda phroses ddethol gynhwysol a thryloyw sy'n asesu ymgeiswyr mewn cymhariaeth â'r medrau gofynnol ac unrhyw fylchau a ddynodwyd gan sicrhau gwrthrychedd, gan roi blaenoriaeth i amrywiaeth a chynhwysiant ar bob cam.

| | |
|---|---|
| **54%** | o'n Bwrdd yn ferched |
| **43%** | o Gadeiryddion ein Byrddau a Phwyllgorau yn ferched |
| **15%** | o'n Bwrdd ag anabledd |
| **8%** | o'n Bwrdd o leiafrif ethnig |
| **8%** | o'n Bwrdd yn LHDTC+ |
| **31%** | o'n Bwrdd naill ai'n rhugl yn y Gymraeg neu yn gallu sgwrsio yn Gymraeg |
| **47%** | o'n haelodau yn dynodi eu hunaniaeth genedlaethol fel Cymreig |
| **54** | Cyfartaledd oedran Aelodau'r Bwrdd yw 54 oed |
| **67%** | 67% o'n Tîm Gweithredol yn ferched a - |
| **62%** | o'n Huwch Dîm yn ferched |

## Trosiant y bwrdd a'r rheolwyr

Yn unol â'n telerau llywodraethu, daeth pum aelod i ben y naw mlynedd sy'n uchafswm i ddal swydd ac fe wnaethant ildio eu safle yn ystod 2023/24 ac fe wnaeth un aelod yr un fath yn 2024/25.

O ganlyniad fe wnaeth y trosiant ar y Bwrdd leihau'n sylweddol i 7.69% yn 2024-25, gan adlewyrchu cyfnod o sefydlogrwydd yn dilyn olyniaeth a gynlluniwyd.

Yn 2024-25 fe wnaethom groesawu dau benodiad newydd i'n Tîm Gweithredol: Sian Williams yn Gyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Cyfathrebu a Diwylliant, a Sandy Murray fel Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau. Roedd trosiant cyffredinol y Tîm Gweithredol yn ystod 2024-25 yn 33.33%, sy'n cyd-fynd â'n hymgyrch i gryfhau arweinyddiaeth mewn meysydd allweddol o'r busnes.



Sian Williams



Sandy Murray



**Mae ein bwrdd yn cynnwys:**

- **13** aelod
- **2** gyfarwyddwr gweithredol
- **2** o aelodau'r preswylwyr
- **9** aelod anweithredol
- Mae **84.62%** o'r Bwrdd yn gyfarwyddwyr annibynnol, anweithredol

## Pwyllgor Archwilio

Mae ein Pwyllgor Archwilio yn manteisio ar arweinyddiaeth gref ac arbenigedd ariannol eang. Fe'i harweinir gan ein Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau, sy'n dwyn 25 mlynedd o brofiad ym maes cyllid a swyddogaethau corfforaethol.

Cryfheir y pwyllgor ymhellach gan ddau Aelod o'r Bwrdd gyda phrofiad ariannol diweddar a pherthnasol, gan sicrhau goruchwyliaeth a llywodraethu cadarn. Mae hyn yn cynnwys Nia Hughes, sydd wedi gwasanaethau ar y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio ers 2019. Cychwynnodd Nia ei gyrfa yn archwilio yn PriceWaterhouseCoopers ac mae wedi dal amrywiaeth o swyddi ariannol uchel ar draws y sectorau preifat ac nid er elw. Mae hefyd yn Gymrawd o'r Gymdeithas Cyfrifyddion Siartredig Ardystiedig ac yn Aelod Cysylltiol o'r Gymdeithas Trysoryddion Corfforaethol.

Ymunodd Rob Morton â'r Bwrdd a'r Pwyllgor Sicrwydd yn 2019. Yn Gymrawd o'r Sefydliad Cyfrifyddion Rheoli Siartredig, Rob ar hyn o bryd yw Prif Swyddog Cyllid Caudwell Children ac mae'n dwyn 25 mlynedd o brofiad mewn swyddi masnachol a chyllid uwch ar draws nifer o sectorau, gan gynnwys Cynlluniau Cyllid Preifat, y sector nid er elw, elusennau a'r diwydiant olew a nwy.



Nia Hughes



Rob Morton

## Gwelliant parhaus

Fel rhan o'n hymrwymiad i welliant parhaus a llywodraethu cryf, rydym wedi penodi arbenigwyr allanol i gynnal adolygiad llywodraethu allanol a fydd yn asesu effeithiolrwydd ein strwythurau llywodraethu, perfformiad y Bwrdd a sut yr ydym yn cyd-fynd â safonau arfer gorau, gan gynnwys goruchwyliaeth o'n hymrwymiadau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.

Bydd yr adolygiad yn rhoi dealltwriaeth werthfawr i gefnogi datblygiad parhaus y Bwrdd, gwella tryloywder, a sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu yn parhau yn gadarn, cynhwysol ac yn addas ar gyfer y dyfodol.




## Rheoli gwrthdaro buddiannau

Rydym yn credu mewn cynnal y safonau uchaf o ran didwylledd ac atebolrwydd, gan weithredu mewn diwylliant agored, tryloyw a llawn ymddiriedaeth.

Rhaid i unrhyw wrthdaro buddiannau boed yn un gwirioneddol neu bosibl gael ei ddatgelu ac ar yr achlysuron prin pan fydd gwrthdaro yn cael ei ddynodi, mae'r aelod hwnnw o'r Bwrdd yn tynnu allan o unrhyw drafodaethau a phenderfyniadau cysylltiedig.

Mae ein fframwaith llywodraethu yn seiliedig ar Atodiad Un Deddf Tai 1996, ein Cod Ymddygiad mabwysiedig, a'n gwerthoedd sefydliadol, sy'n arwain ymddygiad moesegol a'n proses o wneud penderfyniadau.

Mae pob Bwrdd yn llofnodi cytundeb gwasanaeth yn amlinellu eu cyfrifoldebau, yn ymrwymo i'r Cod Ymddygiad, ac yn cwblhau datganiadau blynyddol o fuddiannau.

Mae ein rheolau hefyd yn rhoi cyfarwyddyd clir ar ymdrin â buddiannau yn gysylltiedig ag enillion ariannol neu fudd personol, gan sicrhau bod didwylledd ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn parhau yn ganolog i'n harferion llywodraeth.

## Cynnwys preswylwyr

Trwy ein Strategaeth Cynnwys Preswylwyr rydym yn sicrhau bod gan breswylwyr amrywiaeth eang o ffyrdd i gymryd rhan a dylanwadu ar y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud a sut yr ydym yn gwneud pethau (gweler T19 am ragor o wybodaeth).

Mae hyn yn sicrhau bod gan breswylwyr lais gwirioneddol yn ein sefydliad ac yn ein dal i gyfrif.

Mae cyfleoedd hefyd i breswylwyr wirio ac asesu ansawdd ein gwasanaethau, gan sicrhau ein bod yn cael ein llywodraethu'n dda:

**Pwyllgor Preswylwyr** - Yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn gan ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd am y ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phreswylwyr a sut y mae ein gwasanaethau yn perfformio. Mae aelodau'r Pwyllgor Preswylwyr yn eistedd ar ein paneli recriwtio ac yn rhoi llais gwerthfawr wrth i ni recriwtio aelodau newydd i'r bwrdd a swyddi allweddol eraill yn ein sefydliad.

**Aelodau'r Preswylwyr o'r Bwrdd** - Yn sicrhau bod preswylwyr yn ganolog i'r holl benderfyniadau strategol

**Ein Haddewid** - Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cyhoeddi ein trydydd adroddiad o'r enw 'Ein Haddewid' sef ein siarter preswylwyr. Syniad dan arweiniad y preswylwyr, rydym yn defnyddio Ein Haddewid i fesur ein perfformiad a gyrru gwelliannau i'n gwasanaethau.




**Dylanwada Ni arnom**

**#DylanwadaArnomNi** - Yn rhoi cyfleoedd i grŵp mwy amrywiol o breswylwyr ddewis cymryd rhan mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

**Panel Cwynion** - Mae unrhyw feysydd i'w gwella a ddynodir gan y panel yn cael eu symud ymlaen gan grwpiau prosiect gyda phreswylwyr yn chwarae rhan allweddol

**Gofynnwch Unrhyw Beth i Ni** - Mae'r sesiynau galw heibio cymunedol hyn yn rhoi cyfleoedd i unrhyw breswyliwr ddod draw a siarad ag aelod o'n timau tai, asedau, cynnal a chadw, lles a chynnwys preswylwyr sydd wrth law i helpu i ddatrys unrhyw heriau y gall preswylwyr fod yn eu hwynebu.

**Holiaduron Sicrhau Ansawdd** - Rhennir adborth gyda phreswylwyr a'u teuluoedd yn ein cartrefi gofal yn amlygu'r camau yr ydym wedi eu cymryd.

**Cwestiynau gwerth cymdeithasol** - Rydym yn gofyn pum cwestiwn gwerth cymdeithasol i breswylwyr yn flynyddol fel ein bod yn gallu targedu adnoddau ar y rhai sydd fwyaf o'u hangen. Defnyddir y sgyrsiau hyn hefyd i helpu i ffurfio ein cynllun corfforaethol pum mlynedd.

## Cynllun Corfforaethol 2025 - 2030

Trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau i'w cynnwys, mae preswylwyr o bob math o ddaliadaeth wedi cymryd rhan amlwg wrth ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol newydd dros y misoedd diwethaf. Mae hwn yn nodi ein cenhadaeth - gyda'n gilydd fe wnawn ddod â thlodi i ben.




## Gwrando ar ein cydweithwyr

Rydym wedi ymrwymo i wrando ar ein cydweithwyr, a gweithio gyda nhw, ar draws ein sefydliad, gan eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau a gwrando i ddeall sut y bydd y penderfyniadau y byddwn ni'n eu gwneud yn effeithio ar ein gweithlu amrywiol.

Mae ein Fforwm Staff yn cynnwys cydweithwyr sy'n cynrychioli timau ar draws y sefydliad cyfan. Cynrychiolir y Fforwm ar ein Pwyllgor Pobl ac mae'r aelodau hefyd yn mynd ar ddyddiau allan i sicrhau bod llais cydweithwyr yn cael ei gynrychioli ar lefel y Bwrdd.

Mae'r Fforwm Staff yn chwarae rhan weithredol mewn penderfyniadau allweddol, er enghraifft eu cyfraniad at gytuno ar ddyfarniad cyflog 2024/25.

Roedd y Fforwm Staff yn ymwneud â'r broses ac wedi ymgysylltu trwy gydol y broses trwy nifer o sesiynau ymgynghori. Fe wnaeth hyn ein helpu i sicrhau bod barn cydweithwyr yn cael ei hystyried ac i gyrraedd penderfyniad ar ddyfarniad cyflog yr oedd cydweithwyr yn teimlo ei fod yn deg a thryloyw.



"Fel aelod y preswylwyr o'r bwrdd a chadeirydd y Pwyllgor Preswylwyr, rwyf wedi gweld yn bersonol effaith cenhadaeth ClwydAlyn i drechu tlodi dros y pum mlynedd diwethaf.
"Yn allweddol, mae'r gwaith a'r ymrwymiad hwn wedi golygu cryfhau llais a dylanwad preswylwyr ar draws y sefydliad a rhoi'r amser a'r adnoddau angenrheidiol i wirioneddol ddeall yr heriau y mae preswylwyr yn eu hwynebu fel bod gwasanaethau a chefnogaeth yn gallu cael eu dylunio i fodloni anghenion pawb."
**Peter Smith-Hughes**

## Perthnasoedd â rhanddeiliaid

Rydym yn deall pa mor bwysig yw hi i lunio a chynnal cysylltiadau cadarnhaol gyda rhanddeiliaid allweddol fel ein bod yn gallu parhau i dyfu ein gwaith a dylanwad a dangos cynnydd cadarnhaol gyda'n cenhadaeth, i weithio gydag eraill i ddod â thlodi i ben.

Rydym yn asesu ein perthnasoedd ar draws amrywiaeth o randdeiliaid, gan archwilio sut y mae ein cynlluniau a blaenoriaethau yn cyd-fynd â rhai cyrff eraill, a ble gellid bod potensial i weithio gyda'n gilydd, i gefnogi cyflawni'r nodau sy'n gyffredin rhyngom. Mae hyn yn ein galluogi i gael golwg glir ar feysydd lle mae angen i ni gynnal, datblygu neu wella perthnasoedd. Mae'r Bwrdd yn adolygu a chymeradwyo'r cynllun hwn yn flynyddol.

Thema 11:

# Llesiant staff

**Mae sicrhau llesiant ein cydweithwyr yn bwysig iawn i ni. Rydym am i bawb deimlo eu bod yn perthyn yn ClwydAlyn, fel eu bod yn gallu ffynnu yn eu swyddi a symud eu gyrfaoedd ymlaen gyda ni.**

Mae pawb yn ClwydAlyn yn gwirioneddol fyw ein gwerthoedd o ymddiriedaeth, gobaith a charedigrwydd, ac rydym yn parhau i weithio i ymwreiddio'r gwerthoedd hyn ym mhopeth a wnawn.

Rydym hefyd yn sylweddoli y gall llawer o'n cydweithwyr, yn neilltuol y rhai sy'n gweithio yn ein gwasanaethau cefnogi sy'n gweithio gydag unigolion bregus sydd angen cefnogaeth arbenigol, allu profi rhai heriau gwirioneddol yn eu swyddi o ddydd i ddydd, a dyna pam ein bod wedi parhau i weithio tuag at ein nod o ddod yn sefydliad wedi ei seilio ar wybodaeth am Drawma a Phrofiadau Niweidiol mewn Plentyndod.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym am i'n sefydliad fod yn weithle lle mae pawb yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi ac yn gallu bod yn nhw eu hunain.

Mae ein Cynllun Cynhwysiant wedi ei ymwreiddio ym mhob maes ac mae'n cyd-fynd â deddfwriaeth bwysig fel Fframwaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru i Gymdeithasau Tai, Gwrth-hiliaeth Cymru, Cynlluniau Gweithredu LHDTC+ ac Anabledd, Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Deddf yr Iaith Gymraeg a Safonau'r Gymraeg, Deddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.


Mae ein Harbenigwr Cynhwysiant penodol yn cefnogi ac yn cynghori pob maes o'r busnes ac yn rhoi cefnogaeth addasiadau rhesymol a mynediad at waith i gydweithwyr.




CYMRU CYFLOG BYW

**Rydym yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol**





**Bwlch cyflog rhwng y rhywiau:**

**20.45%**

**Cymhareb cyflog Prif Weithredwr i weithiwr:**

**6:1**




## Dathlu cynhwysiant a chodi ymwybyddiaeth

Rydym wedi parhau i ddathlu a chodi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd cynhwysiant pwysig trwy ein cyfryngau cymdeithasol, gwefan ac yn fewnol, fel:

- Yr Wythnos Gynhwysiant Genedlaethol.
- Wythnos Cydraddoldeb Hiliol.
- Wythnos Ddathlu Niwroamrywiaeth.
- Mis Balchder pan wnaethom gynnal 'Diwrnod Balchder ClwydAlyn' gan ystyried y cysylltiad rhwng pobl ifanc LHDTC+ a digartrefedd.

Fe wnaethom hefyd gynnal sesiwn 'Dewch i Siarad' Balchder gyda'r hanesydd ac awdur yn arbenigo ar ymchwil a hanes, Norena Shopland, oedd yn archwilio ymgyrchu LHDTC+ a newid cymdeithasol yng Nghymru.

ASTUDIAETH ACHOS

## Cefnogi pobl awtistig yn y gweithle a thu hwnt



Roedd ein rheolwr prosiect Paul Taylor yn allweddol wrth ddyfeisio a threfnu cynhadledd mewn partneriaeth â Phrifysgol Wrecsam i dynnu sylw at bwysigrwydd Cefnogi Pobl Awtistig yn y Gweithle a Thu Hwnt.

Roedd yr agenda yn cynnwys amrywiaeth o gyflwyniadau gan siaradwyr â phrofiad o awtistiaeth, gyda safbwyntiau ac agweddau gwahanol.

Roedd Sian Williams, y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Diwylliant a Chyfathrebu yn y gynhadledd. Dywedodd Sian: "Fe wnaeth y gynhadledd effeithio'n ddwfn arnaf.

Rhannodd Paul a'r siaradwyr eraill gymaint o storïau grymus gyda ni; roedd yn ddiwrnod o negeseuon grymus, ac rwy'n siŵr y bydd yn arwain at newid ystyrlon."

Atgoffwyd ein cydweithwyr hefyd o'r cyfle i gymryd rhan yn Hafan Pawb, grŵp cefnogi cymheiriaid niwroamrywiol ClwydAlyn, sydd yn lle diogel a chyfrinachol, sydd ar agor i unrhyw un sydd am rannu eu profiadau, gofyn am gyngor a chyfarfod aelodau eraill o'r grŵp.

## Tyfu ein Rhwydwaith Cynhwysiant

Rydym yn falch o fod â nifer o rwydweithiau a arweinir gan gydweithwyr yn ClwydAlyn, ac mae wedi bod yn wych gweld aelodaeth ein Rhwydwaith Cynhwysiant yn esblygu yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â galluogi'r rhwydwaith i gael mwy o ddylanwad ar benderfyniadau a chynlluniau allweddol.

Mae ein rhwydwaith cefnogi dan arweiniad cymheiriaid, Hafan Pawb, i gydweithwyr niwroamrywiol hefyd wedi parhau i ddatblygu a thyfu o ran dylanwad, gan gynnwys bod yn allweddol wrth i ni gyflwyno ein rhaglen fentora wrthdro gyntaf trwy'r sefydliad.

Rydym yn gweithio gydag arbenigwyr cydraddoldeb a chyfiawnder yng Nghymru, Tai Pawb, i greu cynnwys ar ein rhaglen mentora wrthdro fel eu bod yn gallu ei rannu fel 'arfer gorau' i ddarparwyr tai eraill yng Nghymru ddysgu oddi wrtho.

Rydym yn gweithio'n glos gyda chydweithwyr i ehangu'r cynnig o ran rhwydweithiau – gan gynnwys un yn canolbwyntio ar ddiwylliant ac ethnigrwydd, ac rydym wedi datblygu cynllun i wella ein hyfforddiant Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant i'n Bwrdd a'n cydweithwyr i gynnwys pynciau fel gwrth hiliaeth a deall niwroamrywiaeth.




"Nid am ddysgu yn unig y mae mentora gwrthdro, mae'n ymwneud â gwrando, herio tybiaethau, a gyrru newid gwirioneddol. Pan fydd uwch arweinwyr yn gallu cysylltu gyda gweithwyr o gefndiroedd amrywiol, maent yn cael dealltwriaeth rymus sy'n siapio strategaethau cynhwysiant cryfach, yn meithrin diogelwch seicolegol, ac yn creu gweithle lle gall pawb deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi ac yn gallu dwyn eu gwir bersonoliaeth i'r gwaith. Mae'n gysyniad syml gyda'r grym i droi cymorth goddefol yn weithredu gwirioneddol dros newid."
**Paul Taylor - Rheolwr Prosiect**

"Roeddwn yn falch iawn o'r ffordd y gwnaeth y mentoriaid rannu eu safbwyntiau yn agored a didwyll. Gallwn weld y camau eisoes yn dod i'r amlwg sy'n amlygu rhai o'r pethau y gallwn eu gwneud i feithrin diwylliant cynhwysol yn y gweithle sydd o fudd i'r holl weithwyr."
**Sian - Mentai a Chyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Diwylliant a Chyfathrebu.**

## Llunio penderfyniadau cynhwysol

I gefnogi'r holl waith hwn, rydym wedi dechrau cyflwyno Fframwaith Llunio Penderfyniadau Cynhwysol newydd yn ystod y flwyddyn i gymryd lle asesiadau effaith ar gydraddoldeb hen ffasiwn a'n galluogi i liniaru effaith ein penderfyniadau ar y grwpiau amrywiol yn ein cymunedau.

**Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ymhellach i ddatblygu ein harferion recriwtio trwy:**

- Newid y ffordd yr ydym yn hysbysebu swyddi – mae pob hysbyseb yn cynnwys adrannau cliriach, mwy cyfeillgar fel "a yw'r swydd hon yn iawn i mi?" a "sut mae diwrnod nodweddiadol yn edrych?" i helpu ymgeiswyr o ystod ehangach o gefndiroedd i weld eu hunain yn y swydd.
- Adolygu disgrifiadau swyddi a hysbysebion yn weithredol am iaith gynhwysol, nad yw'n gwahaniaethu a hygyrchedd, cael gwared ar jargon a'i gyfnewid am eiriad cliriach, yn cael ei arwain gan werthoedd.
- Gweithredu System Olrhain Ymgeiswyr fodern sydd wedi trawsnewid profiad yr ymgeisydd a'r rheolwr, gan gynnig proses ymgeisio haws ei defnyddio.
- Am y tro cyntaf gallwn yn awr fonitro data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gan bob ymgeisydd – nid dim ond y rhai ar y rhestr fer neu'r rhai a benodir – gan roi darlun cliriach i ni o bwy sy'n ymgeisio am ein swyddi a ble y gallwn fod angen gwella ein cyrraedd neu gael gwared ar rwystrau.
- Lansio Proses Ddatgelu Anabledd a Gwarantu Cyfweliad er mwyn i ymgeiswyr ein hysbysu'n hyderus os oes ganddynt anabledd. Os byddant yn bodloni'r meini prawf hanfodol, maent yn cael gwarant o gyfweliad, gan sicrhau mynediad teg sy'n gyson â'n gwerthoedd.
- Cynnal gweithdai i gydweithwyr ar ein Rhaglen Ddatblygu Arweinyddiaeth yn ymwneud â dynodi tuedd anymwybodol, cyfweld ar sail gwerthoedd, arferion llunio rhestr fer cynhwysol, a gwneud penderfyniadau teg a chyson.




## Cefnogi llesiant ein cydweithwyr

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein tîm llesiant penodol wedi:**

- Cefnogi 131 o gydweithwyr yn uniongyrchol.
- Dyrchafu a chyfeirio cydweithwyr at ein gwasanaeth cynghori allanol pan oedd teimlad y byddai hynny'n fuddiol iddynt yn ogystal â gweithio gyda nhw i roi cefnogaeth a chyngor.
- Wedi rhoi cefnogaeth i reolwyr fonitro a rheoli absenoldeb salwch tymor byr.
- Datblygu Llwybr Straen yn Gysylltiedig â'r Gwaith, gan ein galluogi i weithio gyda'n cydweithwyr i ddeall y ffactorau a all fod yn achosi straen ac archwilio camau y gallwn eu cymryd i'w cefnogi.
- Parhau ein taith i ddod yn sefydliad gwybodus am Drawma a Phrofiadau Plentyndod Niweidiol, gan gynnwys datblygu Rheoli Risg Trawma i'w gyflwyno yn y flwyddyn sydd i ddod ar gyfer digwyddiadau difrifol i sicrhau ein bod yn gallu dynodi a rheoli unrhyw effeithiau a gaiff trawma ar ein cydweithwyr

**Fe wnaethom lwyddo i gael Gwobr Aur Iechyd Meddwl Cymru yn 2024/25 a Gwobr Llesiant Teuluoedd Gweithiol y Deyrnas Unedig am ein cefnogaeth llesiant eang i gydweithwyr**

- Gweithio gyda Phrifysgol Wrecsam i roi hyfforddiant ar ymarfer ystyriol, gwytnwch ac ymdrin â thrawma i gydweithwyr sy'n gweithio yn ein gwasanaethau byw â chefnogaeth.
- Rhannu cyngor iechyd a llesiant cyson trwy ein cylchlythyr iechyd a llesiant a sianeli cyfathrebu mewnol eraill.




## Datblygiad proffesiynol

Rydym yn credu mewn buddsoddi yn ein pobl i sicrhau bod gan gydweithwyr y sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni eu swyddi yn ddiogel ac effeithiol a'u bod yn gallu datblygu eu gyrfaoedd yn y ffordd y maent yn dewis.

Ynghyd â sicrhau bod cydweithwyr yn gyfredol o ran hyfforddiant cydymffurfio craidd, newidiadau deddfwriaethol a'r syniadau diweddaraf yn y sector, fe wnaethom hefyd gael mynediad at dros £120,000 y llynedd at brentisiaethau a chymwysterau wedi eu hariannu'n allanol.

Yn ychwanegol, rydym yn ad-dalu cydweithwyr am eu haelodaeth broffesiynol gan ganiatáu iddynt gael mynediad at adnoddau dysgu ychwanegol trwy eu cyrff proffesiynol.

Mae datblygiad proffesiynol a dyheadau gyrfa yn ganolog i'n Hadolygiad Datblygu Staff blynyddol sy'n helpu ein timau i dyfu a datblygu. Gall cydweithwyr drefnu i gysgodi swyddi eraill i gael dealltwriaeth o'r hyn y maent yn ei wneud, neu gallant ymgeisio am secondiad neu ein swyddi llwybrau i helpu gyda'u datblygiad.

**24**

Cwblhaodd 24 o reolwyr ein Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth, gyda phedwar cohort arall wedi eu cynllunio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

Mae ein 'hofferyn llwybrau gyrfa' hefyd yn helpu cydweithwyr i archwilio'r amrywiaeth o yrfaoedd ar draws ClwydAlyn ac i adolygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer eu camau nesaf o ran datblygiad proffesiynol.

Ac, rydym yn parhau i uwchsgilio ein rheolwyr trwy ein cwrs arweinyddiaeth rheolwyr sy'n ymdrin â themâu hunanymwybyddiaeth, arweinyddiaeth bersonol a thyfu timau gwych.

### Cwblhaodd 3% o'n cydweithwyr gymhwyster proffesiynol yn ystod 2024/25:

| | |
|---|---|
| Gwryw | 9 |
| Benyw | 16 |

| Oedran | Nifer sy'n cyflawni cymhwyster proffesiynol |
|---|---|
| Dan 20 | 0 |
| 20 - 29 | 4 |
| 30 - 39 | 3 |
| 40 -49 | 9 |
| 50 -59 | 7 |
| Dros 60 | 2 |

Thema 12:

# Cadwyn gyflenwi

## Cyflawni gwerth cymdeithasol




Rydym yn gwybod na allwn gyflawni ein cenhadaeth o ddwyn tlodi i ben heb sicrhau bod ein holl weithrediadau busnes, o'r ffordd yr ydym yn prynu nwyddau a gwasanaethau i'r ffordd yr ydym yn adeiladu ein datblygiadau newydd yn ychwanegu cymaint o werth â phosibl at y cymunedau lleol lle'r ydym yn gweithio, ac yn allweddol yn darparu gwerth am arian i'n preswylwyr.

**Dyna pam ein bod yn gweithio i sicrhau bod gwerth cymdeithasol yn rhan o'n diwylliant yn ClwydAlyn a'n busnes o ddydd i ddydd trwy:**

- Ymwreiddio gwerth cymdeithasol yn ein polisi caffael, sydd yn cyd-fynd yn glir â'r Ddeddf Gwerthoedd Cymdeithasol, datganiad Polisi Caffael Cymru a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Cyflawni gwerth cymdeithasol trwy ein cadwyn gyflenwi pryd bynnag y mae'n bosibl i sicrhau bod yr holl nwyddau a gwasanaethau yr ydym yn eu caffael yn cyflawni'r gwerth gorau posibl.
- Gweithio gyda chyflenwyr, sefydliadau a busnesau bach lleol a rhanbarthol sy'n rhannu ein gwerthoedd.

ASTUDIAETH ACHOS




## Prosiect Search DFN

Mae helpu pobl ifanc i gael gwaith yn ffordd bwysig yr ydym yn gweithio i ychwanegu gwerth cymdeithasol yn ein cymunedau lleol.

Rydym yn falch o fod yn rhan o Raglen Trosglwyddo i Waith Prosiect SEARCH DFN, ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint a'r elusen Hft.

Mae rhaglen Prosiect SEARCH DFN yn rhaglen sy'n cael ei chydnabod yn genedlaethol, sy'n cefnogi oedolion ifanc â gwahaniaethau dysgu neu awtistiaeth i dreulio blwyddyn yn gweithio mewn sefydliad. Nod y rhaglen yw helpu i baratoi ar gyfer y gweithle trwy feithrin sgiliau bywyd, cynnal hyder a hyrwyddo annibyniaeth.

Trwy ddarparu lleoliadau gwaith gwerthfawr a chymryd rhan weithredol yn natblygiad gyrfa'r interniaid, rydym yn gallu cyfrannu tuag at gynhwysiant, grymuso a chwarae rhan allweddol yn llwyddiant datblygiad gyrfa llawer o bobl ifanc.

Yn 2024 roeddem yn gwesteio saith o oedolion ifanc talentog – Deanna, Paige, Lewis, Ryan, Finnley, Haydn a Dewi. Gadawodd yr interniaid gyda chymhwyster pwysig, ond hefyd digon o brofiad ymarferol ac ymdeimlad gwirioneddol o'r hyn y gallant ei gyflawni. Fe wnaethant ymuno â dros 1,800 o raddedigion yn y Deyrnas Unedig, 70% ohonynt wedi sicrhau gwaith llawn amser ar ôl y rhaglen.

ASTUDIAETH ACHOS

## Partneriaeth arall sy'n cefnogi ein hymrwymiadau gwerth cymdeithasol yw WeMindTheGap



Daeth Wiktoria Jasieniewicz, Cydlynydd Cynnal a Chadw, i ClwydAlyn fel aelod o WeMindTheGap.

Dywedodd: "Diolch i WeMindTheGap rhoddwyd y cyfle i mi gael profiad gwaith yn Llys y Waun, un o gartrefi gofal ClwydAlyn. Yno y gwnes i ddarganfod fy angerdd am y swydd a datblygu sgiliau gwerthfawr.

Yn dilyn hyn, cynigiodd ClwydAlyn leoliad naw wythnos i mi yn yr adran cynnal a chadw yn eu prif swyddfa yn Llanelwy, cyfle yr oeddwn yn anhygoel o ddiolchgar o'i gael ac ni allwn aros

Ar ôl cwblhau 12 wythnos o brofiad gwaith, roeddwn yn falch iawn o gael cynnig swydd barhaol amser llawn fel Cynllunydd Cynnal a Chadw. Rwyf yn awr yn goruchwylio'r gwaith cynnal a chadw ar gyfer yr adran gwasanaeth plymio, gwresogi a nwy, rhywbeth na fyddwn fyth wedi ei ragweld pan gychwynnais ar fy nhaith!

Trwy gydol fy amser yn ClwydAlyn, rwyf wedi datblygu sgiliau technegol a phersonol sydd wedi fy helpu i dyfu. Yn bersonol rwyf wedi tyfu o ran hyder a dod yn llai swil.

Mae'n adran brysur sy'n symud yn gyflym, gan ymdrin â dros 100 o swyddi'r diwrnod, rhywbeth yr wyf yn ei weld yn gyffrous a heriol. Mae pob dydd yn gyfle i ddysgu rhywbeth newydd, ac rwy'n gobeithio dal i dyfu yn y swydd hon i'r dyfodol.

Rwy'n ddiolchgar fy mod yn rhan o dîm sydd wedi fy helpu i ddatblygu yn broffesiynol a phersonol, ac rwy'n edrych ymlaen at weld i ble y bydd y daith hon yn fy arwain."

## Cynllunio at y dyfodol

Pan fyddwn yn cynllunio gwaith datblygu a chontractau mawr, mae gwerth cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn y telerau cytundeb fel bod unrhyw un sydd â diddordeb mewn gweithio gyda ni yn deall ein hymrwymiadau gwerth cymdeithasol.

**Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein cynllun corfforaethol pum mlynedd newydd rydym hefyd wedi cyflwyno dull cyson ar draws ein gwasanaethau datblygu ac eiddo i ymwreiddio gwerth cymdeithasol ymhellach fel rhan arferol o'n busnes. Roedd hyn yn canolbwyntio ar:**

- **Creu lleoedd** - Ystyried hyn fel rhan o bob datblygiad ac adnewyddu i gyfrannu at gymunedau diogel, mynediad at gyflogaeth (cysylltiadau trafnidiaeth) a mannau sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant
- **Cyfraniadau at weithgareddau neu brosiectau cymunedol** - Naill ai arian, mewn nwyddau neu waith, yn cyd-fynd â blaenoriaethau ein cynllun corfforaethol am y pum mlynedd nesaf o ddod â digartrefedd i ben, sicrhau bod pawb yn gallu byw mewn cartrefi cynnes a darparu mynediad at fwyd da.



Ffotograff: Gweithiodd DU Construction yn agos gydag Ysgol Brynsiencyn gan wneud clytiau llysiau wedi eu codi iddynt, er mwyn iddynt allu tyfu eu llysiau eu hunain.

- **Cadwyn gyflenwi** - Ymrwymo i gael nwyddau a gwasanaethau yn lleol i gefnogi Cymru ffyniannus.
- **Amgylchedd** - Yn unol â'n Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol.

Mae ein tîm caffael yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad i gefnogi, cynghori a'u harwain trwy'r broses gaffael i sicrhau bod ein holl arferion yn cynnwys gwerth cymdeithasol pryd bynnag y bydd yn bosibl.

Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth a chydweithio ar werth cymdeithasol gyda phartneriaethau rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys cymdeithasau tai eraill, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Cymru.

ASTUDIAETH ACHOS

# Disgyblion ysgol gynradd yn dewis enw i stad dai leol, yn ogystal â mireinio eu sgiliau STEM







Gan weithio gyda phartneriaid fe wnaethom redeg cystadleuaeth a welodd ddisgyblion ysgol gynradd yn Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth, yn wynebu'r her o roi enw ar stad dai newydd leol o 41 o gartrefi a adeiladwyd i ClwydAlyn a Grŵp Cynefin gan Williams Homes Bala Ltd.

Gweithiodd Williams Homes gyda Chyngor Tref Penrhyndeudraeth i redeg y gystadleuaeth ysgol i roi enw i'r datblygiad newydd. Ar ôl llawer o drafod ac awgrymiadau gwych, dewiswyd yr ymgais fuddugol, "Maes Deudraeth".

Defnyddiodd y partneriaid y datblygiad hefyd fel cyfle i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o adeiladwyr trwy ddigwyddiad addysgol cyffrous yn yr ysgol.

Ymwelodd Penny Lofts, Rheolwr Tir a Chaffael i Williams Homes, â'r ysgol i gyflwyno sesiynau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) rhyngweithiol.

Bu Penny yn helpu disgyblion o Flynyddoedd 3 i 6 i archwilio sut y mae STEM yn sail i adeiladu cartrefi diogel a chynaliadwy. Dysgodd y myfyrwyr sut y mae proffesiynau gwahanol – fel penseiri, peirianwyr, adeiladwyr a rheolwyr prosiect – yn gweithio gyda'i gilydd i greu ardaloedd diogel, cynaliadwy.

## Olrhain ein heffaith

Rydym yn gosod dangosyddion perfformiad allweddol i sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn y byddwn yn ei ddweud, sy'n cael eu pennu gan y cwestiwn gwerth cymdeithasol yr ydym yn ei ofyn i gyflenwyr yn ystod y cam tendro ac sy'n rhan o'r contractau yr ydym yn eu cytuno gyda'r cyflenwyr llwyddiannus.

Rheolir pob contract gan swyddog arweiniol sy'n cadw golwg ofalus ar y dangosyddion perfformiad i sicrhau eu bod yn cyflawni ein hamcanion.

Pan fyddwn yn derbyn ceisiadau i gefnogi cynigion gwerth cymdeithasol unigol trwy ein cronfa gwerth cymdeithasol, mae ein hyrwyddwyr gwerth cymdeithasol mewnol yn ystyried nifer o ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pwysig. Ar ôl cytuno ar gynnig prosiect, mae ein swyddog Caffael a Gwerth Cymdeithasol yn gweithio gydag arweinydd y prosiect i gytuno sut y bydd yn cael ei fesur a'i fonitro i sicrhau ei fod yn cyflawni'r deilliannau cywir.



## Effaith amgylcheddol

Mae cynaliadwyedd yn dod yn rhan fwy o'n gweithgareddau caffael, gydag amcanion tymor hir, targedau tymor byr a chynlluniau gweithredu yn cael eu nodi yn ein Strategaeth Amgylcheddol a Chynaliadwyedd (gweler T4 am ragor o wybodaeth).

Er enghraifft, yn y tymor hir rydym am gyflwyno arferion caffael cynaliadwy ar draws ein gwaith datblygu ac eiddo i'n cefnogi i gyflawni gwerth cymdeithasol a lleihau'r gwastraff y mae'r prosiectau hyn yn ei gynhyrchu.

**Mae ein targedau i gyflawni hyn yn cynnwys:**

- Ymgysylltu gydag 20 o'n prif gyflenwyr i ddeall pa ddata y gallwn ei ddefnyddio i'n helpu i olrhain pa mor gyfrifol yr ydym ar hyn o bryd wrth brynu nwyddau a gwasanaethau i ffurfio'r targedau yr ydym yn eu gosod i gyflenwyr.
- Datblygu proses i olrhain a monitro prynu o ffynonellau cyfrifol, gan adeiladu ar y Pecyn Offer Gwerth Cymru i ddeall popeth o werth y cynhyrchion, deunyddiau a gwasanaethau a brynir o fewn radiws o 30 milltir, i arferion llafur moesegol, tryloywder cadwyni cyflenwi a gwerth cymdeithasol ac ymgysylltu cymunedol.
- Datblygu polisi prynu cyfrifol i sicrhau bod ein harferion caffael yn cyd-fynd â'n hamcanion amgylcheddol ehangach yn ymwneud ag allyriadau nwyon tŷ gwydr, rheoli llygredd a rheoli gwastraff.

ASTUDIAETH ACHOS



## Y Cysgu Allan Mawr

Yn ogystal â gweithio'n galed i sicrhau bod ein harferion caffael yn cyflawni'r gwerth cymdeithasol gorau posibl i'n preswylwyr, rydym yn falch bod ein cydweithwyr yn barhaus yn mynd y filltir ychwanegol i ychwanegu gwerth a gwneud gwahaniaeth i'r preswylwyr a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mewn ymdrech ar y cyd i godi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd a chodi arian at wasanaethau hanfodol, cymerodd llawer o'n cydweithwyr ran yn yr 11fed digwyddiad Cysgu Allan Mawr blynyddol.





Ynghyd â phartneriaid o Enhanced Heathcar, Ambiwlans Awyr Cymru a DHL Logistics, codwyd dros £1,500 at ein Gwasanaethau Digartrefedd.

Dywedodd Lynda Williams, Rheolwr Tai â Chefnogaeth yn ClwydAlyn sydd wedi datblygu ac arwain y Cysgu Allan Mawr yn ClwydAlyn: "Dros yr 11 mlynedd diwethaf, mae ein gwirfoddolwyr a chefnogwyr rhyfeddol wedi helpu i godi mwy na £50,000 at wasanaethau digartrefedd. Mae'r cronfeydd hyn yn allweddol, rydym yn rhoi cefnogaeth i dros 100 o bobl yn flynyddol, gan eu helpu i ddod o hyd i le addas i'w alw'n gartref yn ein preswylfeydd. Mae digartrefedd yn broblem gymhleth a pharhaus, ond rydym wedi ymrwymo i'r cynllun hwn am gyn hired ag y bydd yn ei gymryd."



















ClwydAlyn

## Cael gwybod rhagor a gweithio gyda ni

Os hoffech chi gael gwybod rhagor am unrhyw ran o'r gwaith yr ydym wedi ei amlygu yn yr adroddiad hwn eleni, neu y byddech yn hoffi archwilio sut y gallwn weithio gyda'n gilydd, pan fydd ein blaenoriaethau yn cyd-fynd, tuag at ein cenhadaeth o ddwyn tlodi i ben yng Ngogledd Cymru, cysylltwch.

**@ClwydAlyn**

**www.clwydalyn.co.uk · 0800 183 5757**
**E-Bost: help@clwydalyn.co.uk**

Mae ClwydAlyn yn Gymdeithas Gofrestredig Elusennol

ACLI 2024/2025

ClwydAlyn

ClwydAlyn.co.uk · @ClwydAlyn